

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol
(Cymru):
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

Hydref 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru

Twitter: [@SeneddCCLIL](https://twitter.com/SeneddCCLIL)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol
(Cymru):
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Hydref 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gyloch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Christine Chapman
(Cadeirydd)
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Peter Black
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Alun Davies
Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Jocelyn Davies
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Janet Finch-Saunders
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Mike Hedges
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Gwyn Price
Llafur Cymru
Islwyn



Gwenda Thomas
Llafur Cymru
Castell-nedd



Rhodri Glyn Thomas
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Roedd yr Aelod Ganlyn yn bresennol fel dirprwy aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



John Griffiths
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Bethan Jenkins
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cyflwyniad	7
Telerau'r gwaith craffu.....	7
Dull y Pwyllgor o weithredu	8
2. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am y Bil.....	9
Egwyddorion cyffredinol	9
Dull o ddrafftio.....	10
Materion nas darperir ar eu cyfer yn y Bil	11
Gweithredu ac adnoddau	13
3. Diwygio'r trefniadau ar gyfer cofrestru a rhestru.....	20
Ymgynghori, diogelu dros dro ac adolygu	20
Ehangu'r diffiniad o "heneb"	23
4. Rhwystro difrod i henebion cofrestredig	25
Diwygiadau i'r troseddau a'r amddiffyniadau sy'n ymwneud â henebion cofrestredig	25
Cyflwyno hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig.....	29
Pŵer i gael mynediad i dir y credir bod heneb hynafol arno	31
5. Parciau a gerddi hanesyddol.....	33
6. Atal difrod i adeiladau rhestredig.....	37
Hysbysiadau stop dros dro	37
Ehangu cwmpas gwaith brys ac adennill costau.....	39
7. Cofnodion amgylchedd hanesyddol	45
Cofnodion amgylchedd hanesyddol statudol	45
Y priodoldeb o roi'r ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol..	46
Materion mewn perthynas â'r Gymraeg	48
8. Y Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth	54
9. Y Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru	58
Y risg o ddyblygu â chyrrff eraill	58
Aelodaeth y Panel ac annibyniaeth	59
Y trefniadau monitro ac adrodd	59

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'r Aelod sy'n gyfrifol i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

Argymhelliad 1. Argymhellwn fod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. (Tudalen 17)

Argymhelliad 2. Argymhellwn fod adran 33(2) o'r Bil yn cael ei diwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at enwau lleoedd hanesyddol a bod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn. (Tudalen 19)

Argymhelliad 3. Argymhellwn y dylai canllawiau sy'n nodi cyfrifoldebau perchnogion a deiliaid henebion neu adeiladau sy'n cael eu hystyried i'w dynodi gael eu cyhoeddi ar yr un pryd ag y rhoddir hysbysiad o'r rhestr neu'r gofrestr arfaethedig. Dylai'r canllawiau gynnwys esboniad am y troseddau os caiff y trefniadau diogelu dros dro eu torri. (Tudalen 22)

Argymhelliad 4. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn ystyried ymhellach sut y gellid darparu system o ddiogelwch statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol yn y Bil. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys asesiad o oblygiadau ymarferol ac ariannol system o'r fath ar gyfer Llywodraeth Cymru, perchnogion a phartïon perthnasol eraill. (Tudalen 36)

Argymhelliad 5. Argymhellwn fod yr amgylchiadau pan fyddai disgwyl i awdurdodau lleol gyhoeddi hysbysiadau stop dros dro yn cael eu nodi'n glir yn y canllawiau sy'n ategu'r Bil. (Tudalen 38)

Argymhelliad 6. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn rhoi canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol yngylch defnyddio eu pwerau ychwanegol mewn perthynas â gwaith brys (adran 30 o'r Bil). (Tudalen 43)

Argymhelliad 7. Hefyd, argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn egluro a yw'n fwriad ganddo bod y costau gwaith brys ar adeiladau rhestredig yn cael eu hadennill drwy bridianau tir, a bod y rheini yn bridiant cyntaf ar yr eiddo (hynny yw, yn drech na buddiannau eraill sydd eisoes yn bodoli yn yr eiddo, fel morgeisi). (Tudalen 43)

Argymhelliad 8. Os yw'n fwriad gan y Dirprwy Weinidog i'r pridiannau tir hyn fod yn bridiant cyntaf ar yr eiddo, rydym yn pryderu nad yw adran 30 o'r Bil yn gwneud hyn yn glir. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r mater hwn. (Tudalen 43)

Argymhelliad 9. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn ystyried y posibilrwydd o godi cosbau ariannol ar berchnogion sy'n gadael i'w hadeiladau rhestredig ddadfeilio'n fwriadol. (Tudalen 43)

Argymhelliad 10. Ar fater y cofnodion amgylchedd hanesyddol dwyieithog, argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn egluro a yw'r gofynion ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r safonau ym Mesur y Gymraeg 2011 yn gymwys i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys mewn achosion lle mae awdurdodau yn dewis arfer eu swyddogaethau o ran y cofnodion amgylchedd hanesyddol. (Tudalen 52)

Argymhelliad 11. Argymhellwn fod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chynnal rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a bod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn. (Tudalen 53)

Argymhelliad 12. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn codi ymwybyddiaeth ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru o'r manteision o ddefnyddio cytundebau partneriaeth dreftadaeth i'w hannog i ystyried defnyddio'r cytundebau. Dylid gwneud hyn drwy hyrwyddo'r arfer da a ddaeth i'r amlwg yn y cynlluniau peilot cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn Lloegr. (Tudalen 57)

Argymhelliad 13. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol i awdurdodau sy'n dangos parodrwydd i ymrwymo i gytundebau partneriaeth dreftadaeth. Dylai hyn gynnwys cymorth ymarferol wrth ddechrau datblygu'r cytundebau hyn. (Tudalen 57)

Argymhelliad 14. Argymhellwn fod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru lunio adroddiad i Weinidogion Cymru yn flynyddol ar y gwaith a wnaed a'r allbynnau a gyflawnwyd, a bod yr adroddiadau hynny ar gael i'r cyhoedd. (Tudalen 61)

1. Cyflwyniad

1. Ar 1 Mai 2015, cyflwynodd Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ('y Dirprwy Weinidog') [Fil yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\)](#)¹ ('y Bil') a'r [Memorandwm Esboniadol](#) sy'n cyd-fynd ag ef.² Gwnaeth y Gweinidog [ddatganiad](#) ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Mai 2015.

2. Yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2015, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ('y Pwyllgor') ar gyfer ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 9 Hydref 2015.

Telerau'r gwaith craffu

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer mynd ati i graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried:

egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth er mwyn:

- gwarchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn fwy effeithiol;
- gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy;
- sicrhau bod penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd hanesyddol yn cael eu gwneud mewn ffordd fwy tryloyw ac atebol;
- unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);

¹ Mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i'w weld yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=12573>

² Mae Memorandwm Esboniadol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i'w weld yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=12573>

- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

Dull y Pwyllgor o weithredu

4. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gwahoddodd randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gyfrannu at ei waith. Hefyd, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Gellir gweld pob [ymateb i'r ymgynghoriad](#) a [rhestr o'r dystiolaeth lafar](#) ar wefan y Cynulliad.
5. Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi'r casgliadau a'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi'u llunio yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ei waith.
6. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad.

2. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am y Bil

Cefndir

7. Diben y rhan fwyaf o'r Bil yw diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n llywio'r modd y rheolir yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, sef *Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979* ('Deddf 1979') a *Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990* ('Deddf 1990').

8. Mae'r Deddfau hyn yn rhoi trefniadau ar waith ar gyfer dynodi a gwarchod henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig. Maent hefyd yn darparu gweithdrefnau caniatâd ar gyfer gwneud gwaith i'r asedau hyn ac yn pennu troseddau ar gyfer gwaith heb ei awdurdodi iddynt a difrod a achosir iddynt.

9. Mae'r Bil yn rhoi'r gofrestr bresennol o barciau a gerddi hanesyddol, a'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, ar sail statudol. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i drefnu cytundebau partneriaeth dreftadaeth ac mae'n darparu ar gyfer sefydlu Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

Egwyddorion cyffredinol

10. Roedd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Bil, gyda llawer o'r ymatebwyr yn ei groesawu'n benodol. Roedd consensws cyffredinol bod y newidiadau arfaethedig i Ddeddfau 1979 ac 1990 yn amserol ac y byddent yn gwella'r modd y caiff yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru ei warchod a'i reoli.

11. Wrth gefnogi'r egwyddorion cyffredinol, dywedodd y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol ('Y Gronfa') fod y newidiadau arfaethedig i'r Deddfau presennol yn gyfres syml o gamau synhwyrol sydd, i bob pwrpas, yn cysoni prosesau deddfwriaethol y Deddfau hynny.³

12. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ('y Comisiwn Brenhinol'), Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-

³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 35

Powys, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.⁴

13. Roedd rhai ymatebwyr, er eu bod o blaid yr egwyddorion cyffredinol, yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fynd hyd yn oed ymhellach. Er enghraifft, dywedodd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru fod y Bil yn welliant yn hytrach na dull radical newydd, ac roedd yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach: "...beyond this Bill to take a proactive approach to our historic environment and bring forward more radical solutions to reduce the number of historic buildings, monuments and landscapes at risk."⁵

14. Roedd y Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol yn frwd o blaid y Bil ac yn cyfeirio ato fel cam arwyddocaol ymlaen, a allai roi Cymru ar y blaen ymhlith gwledydd eraill y DU o ran diogelu'r amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, dywedodd ei bod wedi gobeithio gweld mwy fyth newid.⁶

15. Dywedodd y Dr Charles Mynors, arbenigwr mewn cyfraith dreftadaeth, fod yr egwyddorion cyffredinol yn rhai synhwyrol, a dywedodd fod rhai o ddarpariaethau'r Bil eisoes yn rhan o gyfraith Lloegr. Awgrymodd y gallai'r Bil fod yn gyfle unigryw i fynd ymhellach yng Nghymru a chael system sydd, mewn gwirionedd, yn well na'r un sydd ar waith yn Lloegr.⁷

16. Roedd y Dr Mynors hefyd yn cwestiynu a allai'r Bil fod wedi gwneud mwy i integreiddio cyfraith dreftadaeth a chynllunio.⁸ Roedd gan nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, bwyntiau tebyg, a phwysleisiwyd yr angen am well cydlyniant rhwng y Bil a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Dull o ddrafftio

17. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at ddull Llywodraeth Cymru o ddrafftio'r Bil. Awgrymwyd y byddai diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol yn sylweddol yn ei gwneud yn fwy cymhleth ac yn anoddach i ddefnyddwyr ei deall. Ar y mater hwn, dywedodd Grŵp Treftadaeth

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 10, HE 02, HE 05, HE 46

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 09

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 43

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 19

⁸ Ibid

Cymru fel a ganlyn: “the introduction of a third Act additional to the two existing Acts, rather than a single consolidated Act, will inevitably confuse many involved in the care and management of the historic environment”.⁹

18. Dywedodd y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol (‘Y Sefydliad’) rywbeth tebyg, sef bod y Deddfau Cynllunio eisoes yn llawer rhy gymhleth a bod y dull hwn yn eu gwneud yn fwy anhygyrch i’r cyhoedd nag erioed. Roedd yn galw am i’r Bil gael ei disodli gan Fil annibynnol neu fod Bil cydgrynhoi yn ei ddilyn.¹⁰

19. Dywedodd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod dealltwriaeth dda, ar y cyfan, o’r fframwaith deddfwriaethol presennol, ac nad oedd cyflwyno Bil diwygio yn broblem sylfaenol.¹¹ Awgrymodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys y gallai diwygio deddfwriaeth yr oedd ymarferwyr yn gyfarwydd â hi leihau’r posibilrwydd y byddai problemau’n codi yn ystod y cyfnod trosiannol.¹²

20. Awgrymodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed y byddai weedi bod yn well cael Bil hollol newydd, ond cydnabu y byddai goblygiadau sylweddol i hyn o ran adnoddau. Dywedodd mai diwygio’r Deddfau presennol oedd y ‘cyfaddawd’ a bod y diwygiadau yn synhwyrol iawn, yn syml ac yn weddol hawdd i’w deall.¹³

21. Wrth roi sylwadau ar yr angen am broses gydgrynhoi yn y dyfodol, pwysleisiodd y Dr Mynors y byddai hynny’n broses llawer mwy na dim ond edrych ar y ddeddfwriaeth sy’n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.¹⁴

Materion nas darperir ar eu cyfer yn y Bil

22. Dywedodd nifer o ymatebwyr, neu mynegwyd siom, nad oedd y Bil yn cynnwys darpariaeth i wella’r diogelwch a roddir i agweddau eraill ar yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y dreftadaeth forol,

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 41

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 29

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 10 Mehefin 2015 (DS: oni nodir yn wahanol, mae’r cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn at Gofnod y Trafodion yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol)

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 178, 10 Mehefin 2015

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 167, 10 Mehefin 2015

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 19

treftadaeth y byd, treftadaeth gludadwy, enwau lleoedd yng Nghymru, tirweddau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth.

23. Roedd y Cyd-bwyllgor Polisi Archaeoleg Forwrol yn croesawu'r Bil ond dywedodd hefyd: "it fails in any meaningful way to engage with the marine historic environment or to address the challenges which it faces".¹⁵ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan y Comisiwn Brenhinol, ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.¹⁶

24. Mynegodd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyngor Sir y Fflint a Chymdeithas Ddinesig Caerdydd siom nad oedd y Bil yn mynd i'r afael â'r gyfraith sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth.¹⁷ Dywedodd Cymdeithas Ddinesig Caerdydd fod cyfle wedi'i golli i ddiwygio maes o ddeddfwriaeth cynllunio treftadaeth sydd bellach yn hen ffasiwn, yn amhriodol ac yn feichus i'w weithredu,¹⁸ a dywedodd Cyngor Sir y Fflint nad oedd darpariaeth ar gyfer meysydd cadwraeth, a bod hynny'n gam gwag.¹⁹

25. Roedd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru wedi cael cryn siom nad oedd y Bil yn cyfeirio at dreftadaeth gludadwy Cymru.²⁰

26. Roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, yn cyfeirio at y diffyg darpariaeth ar gyfer tirweddau hanesyddol.²¹ Dywedodd un ymatebydd nad oedd cyfeiriad at y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru* ac y golygai hynny fod y Bil yn ddiffygiol, ac y byddai'n cael yr effaith ddifrifol, ond anfwriadol, o leihau statws y Gofrestr am byth fel dull cynllunio sydd wedi ennill ei blwyf yng Nghymru.²²

27. Credai Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru y dylai'r Bil wneud mwy i ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol.²³ Dywedodd y Comisiynydd fod "cryn bryder mewn sawl cymuned yng Nghymru fod enwau tai ac adeiladau hanesyddol

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 42

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 10, HE 55

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 46, HE 50, HE 11

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 11

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 50

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 13

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 303, 18 Mehefin 2015

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 56

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 38, HE 20

(...) yn cael eu newid”. Cyfeiriodd at arwyddocâd enwau lleoedd yng nghyd-destun yr amgylchedd hanesyddol a dywedodd:

“Gall ystyr a tharddiad enw nodwedd yn yr amgylchedd hanesyddol ddadlennu llawer amdano gan gynnwys ei darddiad hanesyddol; y defnydd hanesyddol a wneid ohono; y sawl a oedd yn byw ynddo; ei wneuthuriad ayb. (...) Yn wir gellid dadlau fod y perygl a’r risg sydd i barhad rhai o’r enwau hyn yr un mor fyw â’r risg sydd i barhad yr amgylchedd hanesyddol ei hun mewn rhai achosion.”²⁴

28. Yn yr un modd, credai Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru y dylid “cynnwys enwau ymysg yr asedau hanesyddol o arwyddocâd cenedlaethol y dylid eu nodi a’u diogelu” a bod y Bil “yn anghyflawn” heb ddarpariaeth ar gyfer gwarchod enwau.²⁵

Gweithredu ac adnoddau

29. Er gwaethaf y gefnogaeth i'r Bil, roedd nifer o'r ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai'n gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i'r gallu i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Roedd pryder ymhlith yr ymatebwyr fod yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu'r awdurdodau lleol, a'r sector treftadaeth yn fwy cyffredinol, yn rhwystr i'r gallu i weithredu darpariaethau'r Bil yn effeithiol.

30. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y rhan fwyaf o’r awdurdodau cynllunio lleol ond yn gallu canolbwyntio ar swyddogaethau statudol craidd o ganlyniad i'r wasgfa ar gyllid ac adnoddau a bod llawer o awdurdodau yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r cyfrifoldebau presennol. Cyfeiriodd at y rhwymedigaethau newydd ar awdurdodau cynllunio lleol sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a'r angen i awdurdodau wneud penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethu gwaith, a allai olygu y byddai llai o adnoddau ar gael i weithredu darpariaethau'r Bil.²⁶

31. Dywedodd y Grŵp Sioraidd y bu gostyngiad amlwg (dros 35%) yn nifer y Swyddogion Cadwraeth cymwys. Roedd yn pryderu nad oedd gan awdurdodau lleol y capasiti i gyflogi staff â chymwysterau addas,

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 38

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 20

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 06

ac mai effaith hynny fyddai israddio'r holl fater o reoleiddio treftadaeth.²⁷

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

32. Esboniodd y Dirprwy Weinidog, er bod y Deddfau yr oedd y Bil yn eu diwygio yn sylfaenol gadarn, roedd diffygion yn y Deddfau hynny yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Honnai fod y Bil, a'r canllawiau a'r cyngor polisi a oedd yn cyd-fynd ag ef, yn rhoi Cymru ar y blaen ymhlith gwledydd eraill y DU o ran gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol.²⁸

33. Er y trafodwyd y posibilrwydd o lunio Bil cydgrynhoi, esboniodd y Dirprwy Weinidog, o ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau ac amser, bod y Bil wedi'i gyflwyno yn y ffordd fwyaf priodol yn ei farn ef ac mai dyma'r ffordd orau ymlaen. Nododd nad oedd unrhyw beth yn rhwystro'r Cynulliad rhag trafod Bil cydgrynhoi yn y dyfodol. Ychwanegodd:

“...stakeholders and the general public are already familiar with the legislation, so, in amending the two Acts and in addressing those deficiencies, it’s felt that the people of Wales and our stakeholders will be able to adapt to the changes relatively more easily.”²⁹

34. Wrth roi sylwadau ar yr awgrym bod y Bil yn gyfle i integreiddio cyfraith dreftadaeth a chynllunio yn well, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“...I don’t think we could actually deliver an amalgamation of the duties and of the systems that would place both planning and management of historic assets on an equal footing. I think that what we would see is a denigration of professional expertise within conservation in local authorities”.³⁰

35. Aeth ymlaen i ddweud: “I'm not persuaded that any cost saving would outweigh the potential risk to Wales’s heritage by placing historic environment consents within wider development control”.³¹

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 23

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 4 Mehefin 2015

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 13-14, 4 Mehefin 2015

³⁰ Y Cofnod, paragraff 74, 8 Gorffennaf 2015

³¹ Y Cofnod, paragraff 34, 8 Gorffennaf 2015

36. Pan ofynnwyd iddo a oedd wedi ystyried cynnwys darpariaeth yn y Bil i warchod enwau lleoedd hanesyddol, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“[The] Bill focuses on the physical traces of the historic environment, including archaeological sites, monuments, historic buildings, and less on intangible or less tangible elements of the historic environment, such as place names.”³²

37. Aeth ymlaen i ddweud “I’m not convinced that there are any legislative controls that could be regulated to enhance the protection of place names.”³³

38. Credai'r Dirprwy Weinidog fod y bwriad i osod y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar sail statudol (adran 33) yn helpu i hyrwyddo'r cysylltiad a chadw gwybodaeth am enwau lleoedd a sicrhau bod gwell gwybodaeth yn cael ei chasglu am enwau lleoedd yng Nghymru. Pwysleisiodd yr angen am weithio gyda pherchnogion er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr werthfawrogi arwyddocâd hanesyddol eu hasedau, ac mai hwn oedd y peth gorau i'w wneud, a'r ffordd orau o atal newidiadau diangen i enwau lleoedd.³⁴

39. Er hyn, cytunodd y Dirprwy Weinidog i ystyried y ffordd orau i fynd i'r afael â'r mater o warchod enwau lleoedd hanesyddol yn y Bil, yng ngoleuni unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor.³⁵

40. Ar fater y diffyg darpariaeth yn y Bil ar gyfer treftadaeth gludadwy, eglurodd y Dirprwy Weinidog, er i hyn gael ei ystyried yn y camau cynnar iawn o drafod cwmpas y Bil, barnwyd na fyddai'n fuddiol bwrw ymlaen ag ef. Yn lle hynny, roedd wedi sefydlu panel arbenigol i edrych ar y modd y caiff amgueddfeydd eu darparu yn y dyfodol yng Nghymru, ac ar gynaliadwyedd amgueddfeydd. Cyflwynodd y Panel ei adroddiad ym mis Awst 2015.³⁶

41. Wrth wneud sylwadau am y graddau o warchodaeth yn y Bil ar gyfer y dreftadaeth forol, esboniodd y Dirprwy Weinidog fel a ganlyn: “...the improved protection for scheduled monuments will extend to Welsh territorial waters, and so the broader definition as well of

³² Y Cofnod, paragraff 33, 8 Gorffennaf 2015

³³ Y Cofnod, paragraff 34, 8 Gorffennaf 2015

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 205, 4 Mehefin 2015

³⁵ Y Cofnod, paragraff 36, 8 Gorffennaf 2015

³⁶ Y Cofnod, paragraff 91, 8 Gorffennaf 2015

scheduled monuments will enable those assets beneath the surface of the water to be considered and to be included within historic environment records.”³⁷

42. Wrth ymateb i'r pryder ynghylch y diffyg darpariaeth yn y Bil ar gyfer ardaloedd cadwraeth, eglurodd y Dirprwy Weinidog fod cynnig i uno caniatâd cadwraeth gyda'r caniatâd cynllunio wedi ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar gynigion y Bil. Dywedodd fod y penderfyniad i beidio â chynnwys darpariaeth yn y Bil ar gyfer hyn yn dilyn y pryderon a godwyd am y canlynol: “the risk of reduced protection of conservation areas and the marginalisation of skilled conservation officers within local planning authorities”.³⁸

43. Wrth esbonio pam nad oedd darpariaeth yn y Bil ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd, dywedodd swyddog y Gweinidog fod "cyfran sylweddol" o'r holl Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru eisoes yn cael eu gwarchod yn statudol oherwydd iddynt gael eu dynodi yn henebion cofrestredig neu'n adeiladau rhestredig. Cyfeiriodd at y canllawiau drafft, *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd*, a oedd yn rhoi cyfeiriad clir i'r holl awdurdodau sy'n ymwneud â rheoli'r safleoedd hynny ac yn eu cynnal a'u cadw.³⁹

44. Wrth ymateb i bryderon gan ymatebwyr y gallai'r cyfyngiadau presennol ar y gyllideb o fewn llywodraeth leol beryglu'r gallu i gyflawni nodau'r Bil yn effeithiol, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau mai nod cynigion y Bil oedd lleihau'r beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol.⁴⁰ Esboniodd fod swyddogion Cadw yn trafod gydag awdurdodau cynllunio lleol i geisio canfod sut i rannu adnoddau ac arbenigedd.⁴¹

Ein barn ni

45. Nodwn y gefnogaeth eang yn y dystiolaeth ar gyfer egwyddorion cyffredinol y Bil. Ar y cyfan, mae darpariaethau'r Bil yn annadleuol ac maent, i bob golwg, yn mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Er bod rhai ymatebwyr yn codi pryderon

³⁷ Y Cofnod, paragraff 105, 8 Gorffennaf 2015

³⁸ Y Cofnod, paragraff 111, 8 Gorffennaf 2015

³⁹ Y Cofnod, paragraff 57, 8 Gorffennaf 2015

⁴⁰ Y Cofnod, paragraff 5, 8 Gorffennaf 2015

⁴¹ Y Cofnod, paragraff 17, 8 Gorffennaf 2015

ynglŷn â darpariaethau penodol neu'n gwneud pwyntiau manwl am ddrafftio, nid oedd y rhain yn drech na'u cefnogaeth i'r Bil.

46. O ystyried yr uchod, **argymhellwn fod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.** Er yr argymhelliad hwn, mae gennym nifer o sylwadau penodol ar y Bil a rhai awgrymiadau ehangach o ran rhoi ei ddarpariaethau ar waith.

47. Roedd cytundeb cyffredinol y bydd cyflawni amcanion y Bil yn llwyddiannus yn dibynnu i raddau helaeth ar barodrwydd a gallu Gweinidogion Cymru a llywodraeth leol i arfer eu pwerau estynedig a chyflawni eu dyletswyddau statudol ychwanegol. Clywsom fod awdurdodau cynllunio lleol ar hyn o bryd yn gweithredu gyda chyllidebau llai a bod diffyg capasiti ac arbenigedd mewn rhai awdurdodau. O ystyried bod y pwerau a ddarperir yn y Bil ar gyfer yr awdurdodau, ar y cyfan, yn rhai disgresiynol, mae gennym ninnau'r un pryder a fynegwyd yn y dystiolaeth y gallai awdurdodau fod yn amharod, neu hyn yn oed yn methu, ag arfer y pwerau hyn oherwydd cyfyngiadau ariannol. Felly, er bod y Bil yn cynnig dulliau ychwanegol, a allai fod yn ddefnyddiol, i wella'r modd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei warchod a'i reoli'n gynaliadwy, mae perygl, heb gyllid ychwanegol, mai cyfyngedig fydd eu heffaith yn ymarferol.

48. Yn fwy cyffredinol, rydym yn cydnabod bod y wasgfa bresennol ar gyllid Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn ffactor bwysig wrth ddatblygu cynigion y Bil. Ond ni ddylai hyn, o reidrwydd, fod yn rhwystr i gynnwys darpariaethau mwy uchelgeisiol yn y Bil, a allai ddod i rym ar adeg briodol yn y dyfodol, pan fyddai'r hinsawdd ariannol yn fwy ffafriol. Rydym yn cwestiynu a allai'r Bil hwn fod wedi bod yn gyfle i gyflwyno cynigion deddfwriaethol mwy uchelgeisiol ac ehangach ar gyfer diogelu treftadaeth yng Nghymru.

49. Ar fater cydgrynhoi, rydym yn cydnabod y gallai cydgrynhoi'r Deddfau presennol fod yn broses hirfaith. Fodd bynnag, o ystyried bod proses hir o ddatblygu ac ymgynghori wedi bod wrth wraidd y Bil hwn, rydym yn amau a fyddai cyflwyno Bil cydgrynhoi wedi ymestyn yr amserlen gyffredinol ar gyfer y Bil yn sylweddol fwy. At hynny, er ein bod yn cydnabod y gallai'r gwaith o ddatblygu Bil cydgrynhoi fod yn fwy dwys o ran adnoddau, gallai gweithredu yn y modd hwnnw fod wedi bod yn fwy costeffeithiol yn y tymor hwy.

50. Pryderwn fod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn anodd ei ddefnyddio a'i fod yn ychwanegu at gymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol, sydd eisoes wedi cael ei diwygio'n sylweddol. Credwn y dylai deddfwriaeth Cymru fod yn glir ac yn hygyrch ac nid ydym yn argyhoeddedig bod y Bil yn bodloni'r meini prawf hyn. Er ein bod yn cydnabod nad yw Bil cydgrynhoi yn opsiwn yn y cam hwn ar daith y Bil, ac mor hwyr yn nhymor y Cynulliad, credwn bod cyfle wedi'i golli i gyflwyno deddf gynhwysfawr ac annibynnol yng Nghymru ar yr amgylchedd hanesyddol.

51. Er bod yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan â darpariaethau presennol y Bil, un o themâu cyson y dystiolaeth oedd y diffyg darpariaeth ar gyfer gwarchod a rheoli asedau treftadaeth eraill. O ystyried nad oedd gennym amser i drafod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth hon yn fanwl, nid ydym mewn sefyllfa i ddweud a allai'r Bil gael ei wella yn hyn o beth neu sut y gellid ei wella yn hyn o beth.

52. Er hyn, ar fater enwau lleoedd hanesyddol, clywsom dystiolaeth rymus am eu rôl o ran taflu goleuni unigryw ar dreftadaeth Cymru. Felly, roeddem yn pryderu o glywed y gall yr enwau lleoedd hyn gael eu newid a bod braidd ddim i herio hynny. Yn ein barn ni, mae'r ffaith bod yr enwau lleoedd hanesyddol yn cael eu hepgor yn wendid yn y fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol ac y dylid mynd i'r afael ag ef.

53. Rydym yn cydnabod y gallai fod yn dipyn o her i ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol yn statudol ac y gallai hynny fod yn anodd ei gyflawni. Rydym hefyd yn cydnabod honiad y Dirprwy Weinidog y bydd y cofnodion amgylchedd hanesyddol arfaethedig, y darperir ar eu cyfer yn y Bil, yn cynorthwyo i ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol. Serch hynny, nid yw enwau lleoedd yn cael eu henwi'n benodol yn y rhestr o wybodaeth y dylid eu cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Credwn y byddai cyfeiriad penodol at enwau lleoedd ar y rhestr yn arwydd clir i awdurdodau cynllunio lleol a phartion perthnasol eraill y dylai enwau lleoedd gael eu cofnodi ac y dylent gael eu hystyried yn benodol yng nghyd-destun diogelu treftadaeth. I ategu hyn, gellid creu system fel y gall cymunedau lleol enwebu enwau lleoedd o fewn eu hardal, os ydynt yn credu eu bod o ddiddordeb lleol a hanesyddol arwyddocaol. Credwn y gellid cyflwyno hyn fel rhan o'r cynigion ehangach ar gyfer y Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig. Cyfeiriwn y Dirprwy Weinidog at ein sylwadau ym Mhennod 7.

Argymhellwn fod adran 33(2) o'r Bil yn cael ei diwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at enwau lleoedd hanesyddol a bod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn.

54. Ar fater arall, rydym yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae treftadaeth gludadwy yn ei gwneud i'n helpu ni ddeall y gorffennol yn well. Rydym hefyd yn cydnabod rôl bwysig amgueddfeydd o ran gwarchod treftadaeth gludadwy ac o ran ennyn diddordeb y cyhoedd yn niwylliant a hanes Cymru. Rydym yn croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd ar *Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015* a nodwn ei argymhellion. Edrychwn ymlaen at ymateb cadarnhaol gan y Dirprwy Weinidog, yn enwedig o ran sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwella'i dull o warchod treftadaeth gludadwy ac yn ei rheoli'n gynaliadwy.

3. Diwygio'r trefniadau ar gyfer cofrestru a rhestru

Ymgynghori, diogelu dros dro ac adolygu

Cefndir

55. Mae adrannau 3 a 24 o'r Bil yn diwygio Deddfau 1979 ac 1990 mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer cofrestru a rhestru henebion ac adeiladau.

56. Mae'r Bil yn diwygio'r Deddfau hyn i gynnwys darpariaeth i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phersonau priodol, gan gynnwys y perchennog, wrth gynnig gwneud newidiadau i'r rhestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol ('yr Atodlen') neu i'r rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ('y Rhestr').

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

57. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r darpariaethau a luniwyd i ddiwygio'r trefniadau ar gyfer cofrestru henebion a rhestru adeiladau.

58. Roedd cefnogaeth eang i'r bwriad i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud newidiadau i'r Atodlen neu i'r Rhestr. Credai'r ymatebwyr y byddai hyn yn rhoi mwy o dryloywder yn y broses ddynodi, ac, yn ôl Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, mae'n hen bryd i hynny ddigwydd.⁴²

59. Mynegodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU siom nad oedd darpariaeth i'r cyhoedd gymryd rhan yn y prosesau ar gyfer dynodi henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig. Dywedodd fod cyfranogiad y cyhoedd wedi'i sefydlu'n glir ar lefel ryngwladol fel egwyddor hanfodol yn y broses benderfynu ar warchod yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy.⁴³ Gwnaeth y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol bwynt tebyg a gofynnodd am eglurhad ynghylch a fyddai'r broses ymgynghori yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol lle saif yr ased dreftadaeth.⁴⁴

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 03

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 07

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 35

60. Er i'r Dr Mynors ddweud bod ymgynghori statudol yn ddymunol a synhwyrol, cododd y pryder canlynol: "it will lead to a number of unmeritorious claims that particular monuments and buildings – especially the latter – are not worthy of protection".⁴⁵

61. Roedd consensws eang ymysg yr ymatebwyr fod angen diogelu⁴⁶ henebion ac adeiladau dros dro rhag ofn iddynt gael eu difrodi yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyn i'r asedau gael eu dynodi.

62. Roedd yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu penderfyniad i ddynodi⁴⁷ ar gais perchennog neu ddeiliad yn gefnogol i hynny. Awgrymodd yr Eglwys yng Nghymru y dylai perchennog allu gwneud cais am adolygiad o benderfyniad i restru ar unrhyw adeg ac nid dim ond gwrthwynebu pan gynigir rhestru adeilad.⁴⁸

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

63. Ar fater ymgynghori â'r cyhoedd nid oedd y Dirprwy Weinidog o'r farn ei bod yn briodol agor y broses hon i'r rheini na fyddai'r cynnig i ddynodi yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.⁴⁹ Aeth rhagddo i ddweud bod y "cyhoedd yn cael y cyfle yn gynt yn y broses i ofyn i Weinidogion Cymru ystyried a yw ased yn deilwng o gael ei ddynodi", a dyma'r "adeg fwyaf priodol", yn ei farn ef, ar gyfer cynnwys y cyhoedd.

Ein barn ni

64. Croesawn y bwriad i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud penderfyniad o ran cofrestru neu restru. Credwn y dylai hyn helpu i wella tryloywder ac atebolrwydd y penderfyniadau hyn.

65. Nodwn, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, mai dim ond drwy adolygiad barnwrol y ceir herio dynodiad. Mae hynny'n debygol o fod yn gostus, yn cymryd llawer o amser ac yn gyfyngedig iawn o ran

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 19

⁴⁶ Mae'r Bil yn cyflwyno dull o warchod dros dro, ac felly, yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd darpariaethau Deddfau 1979 ac 1990 yn berthnasol i heneb neu adeilad fel pe baent eisoes wedi eu cofrestru neu eu rhestru.

⁴⁷ Mae'r Bil yn cyflwyno hawl i berchnogion a deiliaid, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn i Weinidogion Cymru adolygu'r penderfyniad i gofrestru neu i restru. Lle gwneir penderfyniad i beidio â dynodi heneb neu adeilad, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer digolledu os bydd gwarchod heneb neu adeilad dros dro yn arwain at golled uniongyrchol neu ddifrod.

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 30

⁴⁹ Y Cofnod, paragraff 132, 8 Gorffennaf 2015

cwmpas. Felly, croesawn yr hawl i berchnogion a deiliaid ofyn i Weinidogion Cymru adolygu'r penderfyniad i ddynodi. Credwn fod y dull hwn o adolygu yn fwy priodol a chymesur na troi at y llysoedd.

66. Credwn fod diogelu dros dro yn hanfodol er mwyn diogelu henebion ac adeiladau rhag cael eu difrodi neu eu dinistrio yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Heb y diogelwch hwn mae perygl y gallai asedau gael eu difrodi neu eu dinistrio'n fwriadol rhag iddynt gael eu cofrestru neu eu rhestru. Credwn hefyd fod y ddarpariaeth ar gyfer digolledu (am golled neu ddifrod a achosir gan ddiogelwch dros dro) yn rhoi cydbwysedd priodol rhwng yr angen i ddiogelu buddiannau perchnogion a deiliaid yn ogystal â diogelu asedau cyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch eu dynodi.

67. Croesawn y canllawiau, *Rheoli newid i adeiladau rhestredig yng Nghymru*, a dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddant ar gael i bob perchennog newydd adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig sicrhau bod perchnogion a deiliaid y mae eu hasedau wedi eu diogelu dros dro yn deall beth yw ystyr hyn, a'u bod yn gwbl ymwybodol o'r tramgwyddau am dorri'r trefniadau diogelwch. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn achos adeiladau mewn perchnogaeth breifat nad yw eu perchnogion efallai yn gwybod am y trefniadau i'w gwarchod.

Argymhellwn y dylai canllawiau sy'n nodi cyfrifoldebau perchnogion a deiliaid henebion neu adeiladau sy'n cael eu hystyried i'w dynodi gael eu cyhoeddi ar yr un pryd ag y rhoddir hysbysiad o'r rhestr neu'r gofrestr arfaethedig. Dylai'r canllawiau gynnwys esboniad am y troseddau os caiff y trefniadau diogelu dros dro eu torri.

68. Rydym yn cydnabod manteision yr amgylchedd hanesyddol i gymunedau ledled Cymru a rôl bosibl asedau hanesyddol o ran ysgogi adfywio. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod cymunedau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am yr amgylchedd hanesyddol yn eu hardal leol. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig mai ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion unigol i restru asedau, yn enwedig cynigion sy'n effeithio ar eiddo preswyl preifat, yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni hyn.

69. Credwn fod y Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn ddull mwy addas ar gyfer cynnwys cymunedau yn y

penderfyniadau ar dreftadaeth leol. Cyfeiriwn y Dirprwy Weinidog at ein sylwadau ym Mhennod 7.

Ehangu'r diffiniad o "heneb"

Cefndir

70. Yn adran 61 o Ddeddf 1979 mae diffiniad o "heneb" at ddibenion cofrestru. Mae Adran 22 o'r Bil yn diwygio Deddf 1979 i ehangu'r diffiniad yn y Ddeddf i gynnwys safleoedd sy'n rhoi tystiolaeth o weithgarwch dynol blaenorol, ond lle nad oes arnynt strwythurau na gwaith.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

71. O'r rhai hynny a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf o blaid ehangu'r diffiniad o "heneb". Esboniodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent fel a ganlyn: "there are certain registers of human activity, and particularly early human activity, in the prehistoric period, where the current legislation doesn't allow scheduling". Aeth ymlaen i egluro y byddai'r diffiniad estynedig yn golygu y gellid diogelu'r safleoedd hynny'n well.⁵⁰

72. Roedd NFU Cymru yn pryderu y gallai rhannau helaeth o Gymru gael eu dynodi pe byddai'r diffiniad yn cael ei ehangu. Roedd yn pwysleisio bod angen i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i ddynodi ardaloedd perthnasol yn 'gynnil'.⁵¹ Fodd bynnag, nododd y Comisiwn Brenhinol mai ychydig iawn o henebion newydd sy'n debygol o gael eu dynodi o ganlyniad i'r newid hwn, ond y byddent yn hynod bwysig o ran eu gwerth gwyddonol.⁵²

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

73. Wrth esbonio'r rhesymeg dros y bwriad i ehangu'r diffiniad o "heneb", dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"...there are a small number of nationally, and in some cases internationally, significant sites that can't currently be scheduled for the reason that they are not based in a structure or building (...) these could include scatters of artefacts from

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 10 Mehefin 2015

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 32

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 10

prehistoric times or from industrial activity, or could include scatters of munitions on a battlefield”.⁵³

74. Roedd y Dirprwy Weinidog yn hyderus fod y mesurau diogelwch angenrheidiol yn eu lle i sicrhau bod y diffiniad estynedig yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Pwysleisiodd hefyd: “only a limited number of areas will be able to meet the very high standard of evidence needed to secure recognition as a nationally important monument”.⁵⁴

Ein barn ni

75. Nodwn y gefnogaeth eang ar gyfer y bwriad i ehangu'r diffiniad o "heneb". Rydym yn cydnabod mai bwriad hynny yw mynd i'r afael ag angen a nodwyd, sef dynodi a diogelu safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol arwyddocaol nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad presennol.

76. Er y byddai'r diffiniad, o'i ehangu, yn rhoi disgrisiwn llawer mwy eang i Weinidogion Cymru i gofrestru, nodwn na ellir dynodi safle dim ond os bodlonir y meini prawf ar gyfer cofrestru, ac mae'r rheini wedi ennill eu plwyf a'r sector yn eu deall. Credwn fod hyn, ynghyd â'r newidiadau arfaethedig i'r trefniadau cofrestru a gynigir mewn manau eraill yn y Bil, yn galluogi'r diffiniad estynedig i gael ei gymhwyso'n gyson ac yn briodol.

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 4 Mehefin 2015

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 4 Mehefin 2015

4. Rhwystro difrod i henebion cofrestredig

Diwygiadau i'r troseddau a'r amddiffyniadau sy'n ymwneud â henebion cofrestredig

Cefndir

77. Mae Deddf 1979 yn pennu'r troseddau a'r amddiffyniadau sy'n ymwneud â gwaith heb awdurdod ar henebion cofrestredig neu pan achosir difrod iddynt. Mae unrhyw berson sy'n euog o drosedd o dan Ddeddf 1979 yn agored i ddirwy neu hyd yn oed garchar mewn rhai amgylchiadau.

78. Mae adrannau 15 i 17 o'r Bil yn diwygio Deddf 1979 er mwyn cyfyngu ar yr amddiffyniadau sydd ar gael o dan y Ddeddf honno. Yn aml iawn, caiff yr amddiffyniadau hyn eu disgrifio fel 'amddiffyniadau ar sail anwybodaeth' am eu bod yn ymwneud â graddau gwybodaeth y person sy'n cyflawni'r dramgwydd.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

79. Cafwyd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth i'r cynnig i gyfyngu ar 'amddiffyniad ar sail anwybodaeth'⁵⁵ am droseddau sy'n gysylltiedig â gwaith heb awdurdod neu pan wneir difrod i heneb gofrestrredig. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o ymatebwyr nad oedd y darpariaethau yn mynd yn ddigon pell, a galwyd am i'r amddiffyniad gael ei ddileu yn gyfan gwbl.

80. Yn ôl yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol:

“Whilst it is positive that the terms under which the perpetrators of damage to scheduled monuments can plead ignorance have been tightened-up, we feel that the measures in the Bill are still too weak and may prove unworkable in practical terms. They could provide too much latitude for perpetrators to avoid prosecution.”⁵⁶

⁵⁵O dan y Bil, yn achos gwaith heb awdurdod, mae'r 'amddiffyniad ar sail anwybodaeth' ond yn berthnasol lle gall y diffynnydd brofi iddo gymryd pob cam rhesymol i ganfod a oedd heneb gofrestrredig yn yr ardal yr effeithir arni gan y gwaith. Ar gyfer troseddau o achosi difrod neu ddinistr bwriadol neu ddi-hid, ni fydd yr amddiffyniad yn gymwys os bydd y diffynnydd yn gwybod, neu y dylai yn rhesymol fod wedi gwybod, ei fod yn difrodi neu'n dinistrio heneb gofrestrredig.

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 46

81. Credir y dylid dileu'r amddiffyniad ar sail anwybodaeth.⁵⁷ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gyngor Sir Ddinbych, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a'r Comisiwn Brenhinol, a ddywedodd fel a ganlyn: "the level of easily accessible information on line via the Historic Wales portal means that it is very easy to check whether land is designated or not and the 'ignorance' defence is even more difficult to justify now than at any time in the past".⁵⁸

82. Ar y llaw arall, croesawodd NFU Cymru y penderfyniad i beidio â dileu'r amddiffyniad. Mae'n pwysleisio'r angen am gronfa ddata gadarn a chywir o henebion sydd ar gael yn rhwydd, ac y dylai henebion cofrestredig gael eu rhestru yn y gofrestr pridiannau tir.⁵⁹ Mynegwyd barn debyg gan y Gymdeithas Tai Hanesyddol.⁶⁰

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

83. Esboniodd y Dirprwy Weinidog fod y newidiadau arfaethedig i'r amddiffyniad ar sail anwybodaeth yn angenrheidiol oherwydd y cydnabyddir ers tro bod amddiffyniad o'r fath yn rhwystr i erlyniad llwyddiannus ac i atal yn effeithiol. Aeth ymlaen i egluro fod y difrod a wnaed i Glawdd Offa wedi dangos y gwendidau yn y ddeddfwriaeth bresennol, a bod angen mynd i'r afael â'r amddiffyniad ar sail anwybodaeth.⁶¹

84. Nid oedd y Dirprwy Weinidog yn credu ei bod yn briodol gwneud gwaith heb awdurdod ar heneb gofrestredig yn drosedd atebolrwydd lem am fod llawer o'r safleoedd rhestredig yn guddiedig neu'n anodd eu hadnabod, fel y rhai a oedd dan y ddaear.⁶²

85. Eglurodd y byddai manylion yr henebion cofrestredig wedi'u mapio ar gronfa ddata ar-lein. Eglurodd ymhellach y byddai disgwyl i berson chwilio'r drwy'r gronfa ddata i sicrhau nad oedd safle wedi'i ddynodi cyn y gallai ddechrau gwaith ar safle lle nad oes unrhyw arwydd amlwg neu awgrym o heneb gofrestredig.⁶³

86. Cadarnhaodd swyddog y Dirprwy Weinidog y byddai henebion cofrestredig yn ymddangos fel pridiant tir ar ddogfennau'r Gofrestrfa

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 46

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 09

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 32

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 31

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 4 Mehefin 2015

⁶² Ibid

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 52-53, 4 Mehefin 2015

Tir, a dylai hynny alluogi darpar brynwr i ganfod a oedd heneb ar y tir.⁶⁴

Ein barn ni

87. Cytunwn â'r Dirprwy Weinidog a'r ymatebwyr fod yr amddiffyniad ar sail anwybodaeth presennol yn ei gwneud yn rhy hawdd i'r rhai a gyhuddir o droseddau sy'n ymwneud â henebion cofrestredig osgoi cael eu herlyn. Credwn fod yr amddiffyniad ar sail anwybodaeth yn gwanhau'r trefniadau diogelu, ac mae potensial hefyd i danseilio effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Fel y cyfryw, cytunwn fod angen newid yr amddiffyniad er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddiffnyddion gyflwyno safon uwch o dystiolaeth.

88. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth i gyfyngu ar argaeledd yr amddiffyniad, y darperir ar ei gyfer yn y Bil. Rydym hefyd yn cydnabod awgrym yr ymatebwyr y dylid dileu'r amddiffyniad. Er ei bod yn amlwg bod yr awgrym hwn yn seiliedig ar yr awydd i ddiogelu henebion cofrestredig yn well, nid ydym yn argyhoeddedig bod cael gwared ar yr amddiffyniad yn briodol nac yn rhesymol. Rydym yn cydnabod y gall fod achosion dilys lle caiff henebion eu difrodi'n anfwriadol, yn enwedig lle mae'n anodd penderfynu a oes yno gofeb neu faint y gofeb honno. Mae'n bosibl y gallai'r bwriad i ehangu'r diffiniad o heneb, a allai arwain at ddynodi safleoedd nad ydynt yn dangos unrhyw olion strwythur neu waith, (gweler Pennod 3), arwain at anawsterau yn hyn o beth.

89. O ystyried yr uchod, credwn fod y newidiadau arfaethedig i'r amddiffyniadau y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn rhesymol ac yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng sicrhau erlyniad llwyddiannus lle bo hynny'n briodol a chydabod bod posibilrwydd y gallai rhywun wneud difrod yn anfwriadol.

90. Cyn cyflwyno'r troseddau newydd, credwn bod angen sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael ynghylch lleoliad yr henebion cofrestredig, a bod honno'n hawdd cael gafael arni. Felly, croesawn fwriad y Dirprwy Weinidog i gyhoeddi cronfa ddata ar-lein cyn i'r ddarpariaeth newydd sy'n ymwneud â'r amddiffyniadau ddod i rym. Os disgwylir i unigolion fynd ati'n ymarferol i chwilio am wybodaeth am leoliad henebion cofrestredig er mwyn osgoi cyflawni trosedd, mae'n hanfodol sicrhau eu bod yn gwybod pa ffynonellau gwybodaeth sydd

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 58-60, 4 Mehefin 2015

ar gael. Credwn fod angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y ffynonellau hyn ac am y newidiadau i'r troseddau. Disgwylwn i'r Dirprwy Weinidog ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn fel rhan o'r broses o roi darpariaethau'r Bil ar waith.

Cyflwyno hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig

Cefndir

91. O dan Ddeddf 1979, mae gwneud gwaith ar heneb gofrestrredig yn drosedd oni bai bod y gwaith wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru neu fod y gwaith wedi cael caniatâd o dan Orchymyn Henebion (Caniatâd Dosbarth) 1994.

92. Mae Adran 12 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad gorfodi mewn perthynas â heneb gofrestrredig, ac mae'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer apelio i lys ynadon yn erbyn hysbysiad.

93. Mae adran 13 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad stop dros dro, sy'n ei gwneud yn ofynnol i atal ar unwaith unrhyw waith sydd wedi cael ei wneud, neu sy'n cael ei wneud, yn groes i'r Ddeddf honno. Mae mynd yn groes i hysbysiad stop dros dro yn drosedd ac, o'i gael yn euog, mae'r sawl a gyhuddir yn agored i ddirwy.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

94. Roedd consensws cyffredinol y byddai hysbysiadau gorfodi mewn perthynas â heneb gofrestrredig a hysbysiadau stop dros dro yn ddulliau defnyddiol o helpu i atal difrod i henebion cofrestredig.

95. Roedd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU yn croesawu'r darpariaethau a dywedodd eu bod yn sicrhau bod y gyfraith ar ddiogelu treftadaeth yn cyfateb i'r system sefydledig o orfodaeth mewn cyfraith gynllunio.⁶⁵ Mynegodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed safbwyntiau tebyg.⁶⁶

96. Hefyd, croesawodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent y bwriad i gyflwyno hysbysiadau gorfodi. Dywedodd fel a ganlyn: "in the past there has been a reluctance by officials to pursue enforcement of conditions attached to Scheduled Ancient Monument consents (...) as there was a lack of powers short of taking action through the courts".⁶⁷ Dywedodd Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 07

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 03

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 05

bod hysbysiadau gorfodi yn ddull amgen mwy hyblyg (neu ychwanegol) yn hytrach nag erlyn.⁶⁸

97. Wrth roi sylwadau ar y cynigion ar gyfer hysbysiadau stop dros dro, dywedodd y Dr Mynors:

“...given that unauthorised works to scheduled monuments and listed buildings already constitute a criminal offence, and are or will be subject to specific powers as to injunctions, there seems little point in introducing temporary stop notices”.⁶⁹

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

98. Yn ôl y Dirprwy Weinidog, roedd hysbysiadau gorfodi mewn perthynas â heneb gofrestredig yn bwysig oherwydd ar hyn o bryd nid oes unrhyw bwerau ar gael o dan Ddeddf 1979 i fynnu bod gwaith yn peidio, neu fod atgyweiriadau'n cael eu gwneud, heblaw gofyn am waharddeb neu lwyddo mewn achos erlyn.⁷⁰

99. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod y bydd trafodaethau yn y rhan fwyaf o achosion yn arwain at roi stop ar waith heb ei awdurdodi a allai ddifrodi'r heneb. Oni fyddai hynny'n llwyddiannus, byddai'r pwerau newydd yn golygu y gellir mynd i'r afael yn effeithiol â gwaith heb ei awdurdodi ac y byddai hefyd yn rhwystro gwaith o'r fath.⁷¹ Roedd hefyd yn cydnabod bod difrodi henebion cofrestredig yn drosedd, ond honodd fod angen yr hysbysiadau stop dros dro er mwyn atal difrod yn y fan a'r lle ac i sicrhau nad oes difrod yn cael ei wneud.⁷²

Ein barn ni

100. Rydym yn cydnabod fod y pwerau a ddarperir yn y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi hysbysiadau stop dros dro a rhybuddion gorfodi mewn perthynas â henebion rhestredig wedi'u bwriadu i fynd i'r afael ag angen a nodwyd (sef galluogi Gweinidogion Cymru i roi stop ar waith ar unwaith, i alw am i'r holl waith beidio, a bod gwaith adferol yn cael ei wneud). Credwn y bydd y pwerau hyn yn cryfhau'r darpariaethau gorfodi presennol ac y byddant yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i fynd i'r afael â gwaith

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 18

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 19

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 43, 4 Mehefin 2015

⁷¹ Ibid

⁷² Y Cofnod, paragraff 142, 8 Gorffennaf 2015

anawdurdodedig yn effeithiol a mynd i'r afael ag achosion o fethu â chydymffurfio.

Pŵer i gael mynediad i dir y credir bod heneb hynafol arno

Cefndir

101. Mae Deddf 1979 yn darparu pwerau mynediad i fonitro a chofnodi cyflwr heneb gofrestrdig ac i gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau mewn perthynas â rhoi cydsyniad heneb gofrestrdig. Mae hefyd yn cynnwys pŵer sy'n caniatáu i berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru gloddio tir at ddibenion archaeolegol os gwyddys fod heneb ar y tir, neu os credir hynny.

102. Mae adran 19 yn diwygio Deddf 1979 i roi pŵer i Weinidogion Cymru awdurdodi person i fynd ar dir i wneud archwiliad archaeolegol ar heneb sydd dan fygythiad o ddifrod neu ddinistr heb gydsyniad y perchennog ac unrhyw berson arall y gellid bod angen ei gydsyniad.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

103. Ychydig o'r ymatebwyr a fynegodd farn am y pŵer arfaethedig i gael mynediad.

104. Dywedodd NFU Cymru y dylid defnyddio'r pŵer hwn yn gynnil ac mewn achosion prin. Aeth ymlaen i awgrymu mai dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y dylai Gweinidogion Cymru arfer y pŵer.⁷³

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

105. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r pŵer mynediad arfaethedig ond yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol, megis pan na ellid dod o hyd i berchennog, os nad oedd yn bresennol yn y DU, neu os oedd wedi marw.⁷⁴

106. Dywedodd fod y pŵer yn gyson â Deddf Hawliau Dynol 1998. Ymhelaethodd ei swyddog ar hyn a dywedodd:

“...we've considered the human rights implications and we believe that we've struck the right balance between the need to protect these monuments and, obviously, the rights of owners.

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 32

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 66, 4 Mehefin 2015

There are safeguards in there because this power can only be used if there's an imminent risk of damage or destruction (...) there are compensation provisions in the 1979 Act (...) that would apply to this particular provision.”⁷⁵

107. Eglurodd y Dirprwy Weinidog ymhellach fod “...Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i arfer eu pwerau yn unol â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol (adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).” Eglurodd hefyd, yn rhinwedd darpariaeth yn Neddf 1979, na all person a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i gael mynediad i dir sydd wedi'i feddiannu, arfer yr hawl mynediad hwnnw oni bai bod y deiliad wedi cael 24 awr o rybudd.⁷⁶

Ein barn ni

108. Nodwn fod y pŵer i gael mynediad i dir heb ganiatâd y perchennog, os gwyddys neu os credir fod heneb ar y tir hwnnw, yn gyfyngedig i achosion lle mae'r heneb mewn perygl dybryd o gael ei difrodi neu ei dinistrio.

109. Croesawn yr eglurhad a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog fod y pŵer arfaethedig hwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ar hawliau dynol, a'r sicrwydd a roddodd y bydd y pŵer hwn yn cael ei arfer mewn amgylchiadau eithriadol ac i bwrpas penodol, sef er mwyn cofnodi gwybodaeth archaeolegol a allai, oni wneir hynny, ddiflannu am byth. O ystyried hyn, rydym yn fodlon bod y pŵer yn angenrheidiol ac yn gymesur.

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 4 Mehefin 2015

⁷⁶ Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 21 Gorffennaf 2015:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s42729/Ymateb%20gan%20y%20Dirprwy%20Weinidog%20Diwylliant,%20Chwaraeon%20a%20Thwristiaeth%20-%2021%20Gorffennaf%202015.pdf>

5. Parciau a gerddi hanesyddol

Cefndir

110. Mae'r gofrestr anstatudol bresennol o barciau a gerddi hanesyddol yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru. Mae adran 18 o'r Bil yn rhoi statws statudol i'r gofrestr hon.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

111. Roedd cefnogaeth gref o blaid rhoi'r gofrestr bresennol o barciau a gerddi hanesyddol ar sail statudol.

112. Wrth gefnogi'r gofrestr statudol arfaethedig, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn credu y byddai hyn yn rhoi'r ydnabyddiaeth a'r statws angenrheidiol i'r rhinweddau hanesyddol penodol. Dywedodd fel a ganlyn: "the arrangements for consultations on planning applications affecting Registered Parks and Gardens, and their settings, will be firmer and clearer". Byddai hynny'n help i sicrhau cysondeb o ran y ffordd y mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn gweithredu.⁷⁷ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gyngor Sir Powys a'r Comisiwn Brenhinol.⁷⁸

113. Credai'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad y dylai'r gofrestr gael ei hategu gan ymgynghoriad statudol a'r hawl i adolygiad, tebyg i'r hyn a gynigir yn y Bil ar gyfer henebion ac adeiladau.⁷⁹ Galwodd y Gymdeithas Tai Hanesyddol am ryw fath o system apelio pan ychwanegir asedau at y gofrestr heb i'r perchennog gael gwybod ymlaen llaw.⁸⁰

114. Mynegodd llawer o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y gofrestr statudol arfaethedig siom nad oedd y Bil yn cynnwys diogelwch statudol ychwanegol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol.

115. Mynegodd Grŵp Treftadaeth Cymru bryder nad oedd cyfundrefn ganiatâd newydd i gyd-fynd â'r gofrestr ac nad oedd enwi adeilad ar gofrestr yn rhoi unrhyw ddyletswydd ar berchennog i ofalu amdano.

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 27

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 10

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 44

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 31

Roedd hefyd yn pryderu bod y lefel bresennol o warchodaeth a roddir i barciau a gerddi drwy'r gyfundrefn gynllunio yn annigonol.⁸¹

116. Er ei fod yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar ddiogelu a rheoli parciau a gerddi hanesyddol, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam y byddai daparu amddiffyniad statudol wedi bod yn ganlyniad mwy dymunol.

117. Awgrymodd Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir Powys hefyd y byddai darpariaeth ar gyfer diogelwch statudol wedi cael ei groesawu yn y Bil,⁸² ac roedd Powys yn cwestiynu a ddylai parciau a gerddi gael yr un diogelwch ag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Ardaloedd Cadwraeth.⁸³ Awgrymodd Cyngor Sir Ynys Môn y byddai diogelwch statudol yn ei gwneud yn haws i awdurdodau cynllunio lleol ddeall pa lefel o warchodaeth i'w rhoi i barciau a gerddi hanesyddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

118. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n siomedig nad oedd cofrestr statudol wedi'u darparu ar gyfer asedau treftadaeth eraill, gan gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol.⁸⁴ Awgrymodd y Dr Mynors y dylid ystyried ehangu'r gofrestr i gynnwys asedau eraill, gan gynnwys meysydd y gad. Credai mai corff cenedlaethol, fel Cadw, fyddai orau i ddynodi'r rheini yn hytrach nag awdurdodau lleol. Aeth ymlaen i awgrymu y gallai'r Bil gynnwys pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru sefydlu cofrestr cenedlaethol o asedau hanesyddol a fyddai'n galluogi rhestr cenedlaethol ychwanegol i gael eu creu heb orfod troi at ragor o ddeddfwriaeth.

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

119. Wrth bwysleisio'r angen am gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol, esboniodd y Dirprwy Weinidog y gallai perchennog, ar hyn o bryd, optio allan o'r gofrestr anstatudol, ac nad oedd hynny'n deg nac yn gynaliadwy.⁸⁵ Dywedodd y byddai'n ddymunol cael cofrestr gynhwysfawr, y byddai hynny'n werthfawr, ac y byddai'n codi proffil yr asedau hyn.⁸⁶

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 41

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 45, HE 49, HE 40

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 40

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 02

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 4 Mehefin 2015

⁸⁶ Y Cofnod, paragraff 188, 8 Gorffennaf 2015

120. Esboniodd y Dirprwy Weinidog nad oedd angen gofynion ymgynghori ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol tebyg i'r rhai a oedd mewn mannau eraill yn y Bil ar gyfer henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig. Roedd y rheswm am hynny, meddai, yn syml: "...the inclusion on the register doesn't carry any obligation for owners to undertake any particular works or to take any action to maintain a park or garden".

121. Dywedodd nad oedd angen diogelwch statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol oherwydd byddai hynny'n fiwrocraataidd iawn ac yn gostus i'r awdurdod a'r perchenogion a gydsyniodd.⁸⁷ Aeth swyddog y Dirprwy Weinidog rhagddo i ddweud bod cytundeb cyffredinol bod y trefniadau presennol, lle bydd awdurdodau lleol yn ymgynghori â Cadw ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol rhestredig graddfa I neu II* yn gweithio'n weddol dda.⁸⁸

122. Esboniodd swyddog y Dirprwy Weinidog, er bod angen clir am gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol, nad dyna'r sefyllfa yn achos tirweddau.⁸⁹ Esboniodd y Dirprwy Weinidog ymhellach:

"Mae gennym eisoes gofrestr gynhwysfawr o dirweddau hanesyddol ac rydym yn y broses o ddatblygu rhestrau o feysydd brwydr. Anodd yw gweld pa fanteision eraill fyddai'n dod yn sgil rhoi'r rhain ar sail statudol. Ni fyddai'n arwain at gynnwys unrhyw dirweddau neu feysydd brwydr newydd nac yn cynyddu'r lefel yr amddiffyniad a roddir o dan y system gynllunio."⁹⁰

123. Esboniodd hefyd, yn sgil yr ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil, ei fod wedi cytuno i adolygu'r ffordd yr oedd y gofrestr anstatudol o dirweddau hanesyddol yn cael ei defnyddio yn y system gynllunio, a bod hynny'n cael ei adlewyrchu ym Mholisi Cynllunio Cymru drafft a TAN24 a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r Bil.⁹¹

Ein barn ni

124. Rydym yn croesawu'r cynnig i osod y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol ar sail statudol, sy'n rhoi effaith i'r argymhelliad a wnaed

⁸⁷ Y Cofnod, paragraff 188, 8 Gorffennaf 2015

⁸⁸ Y Cofnod, paragraff 191, 8 Gorffennaf 2015

⁸⁹ Y Cofnod, paragraff 224, 8 Gorffennaf 2015

⁹⁰ Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 21 Gorffennaf 2015

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 198, 4 Mehefin 2015

gennym yn ein hadroddiad *Polisi Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru*.

125. Serch hynny, credwn fod angen rhoi diogelwch penodol, statudol ar gyfer parciau a gerddi ac rydym yn cefnogi, mewn egwyddor, bod diogelwch o'r fath yn cael ei gyflwyno yn y Bil. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na chawsom unrhyw dystiolaeth fanwl ynghylch sut y byddai system o ddiogelwch yn gweithio'n ymarferol nac ynghylch y costau gweithredu.

126. O ystyried yr uchod, **argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn ystyried ymhellach sut y gellid darparu system o ddiogelwch statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol yn y Bil. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys asesiad o oblygiadau ymarferol ac ariannol system o'r fath ar gyfer Llywodraeth Cymru, perchnogion a phartïon perthnasol eraill.** Disgwylwn i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn ddim hwyrach na'r adeg y cwblheir y trafodion Cyfnod 2 ar y Bil.

6. Atal difrod i adeiladau rhestredig

Hysbysiadau stop dros dro

Cefndir

127. Mae adran 29 o'r Bil yn diwygio Deddf 1990 i roi pŵer i awdurdodau cynllunio gyflwyno hysbysiad stop dros dro, sy'n ei gwneud yn ofynnol i atal ar unwaith unrhyw waith sydd wedi cael ei wneud, neu sy'n cael ei wneud, i adeilad rhestredig yn groes i'r Ddeddf honno. Mae mynd yn groes i hysbysiad stop dros dro yn drosedd ac, o'i gael yn euog, mae'r sawl a gyhuddir yn agored i ddirwy.

128. Mae adran 29 hefyd yn darparu, mewn rhai amgylchiadau, y caiff unrhyw berson sydd â buddiant mewn adeilad sydd wedi dioddef colled neu ddifrod uniongyrchol o'r ffaith fod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno wneud cais am iawndal.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

129. Roedd cefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth ar gyfer hysbysiadau stop dros dro. Yn ôl y Gymdeithas Tai Hanesyddol, roedd yr hysbysiadau hyn yn ddull yr oedd mawr angen amdano i alluogi awdurdodau lleol i weithredu'n gyflym pan fydd adeilad rhestredig dan fygythiad oddi wrth waith awdurdodedig. Fodd bynnag, roedd yn mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd y gallai adnoddau gael eu hailgyfeirio i dalu cost hysbysiadau, ac y gallai hynny arwain at oedi pellach wrth benderfynu ar geisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig.⁹²

130. Cododd Cyngor Sir Ddinbych bryder fod y pŵer arfaethedig yn creu risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol oherwydd gallai iawndal fod yn daladwy mewn rhai amgylchiadau i berchennog neu eraill sydd â buddiant yn yr adeilad.⁹³

131. Er y cydnabyddir bod gwerth mewn cyflwyno hysbysiadau stop dros dro, dywedodd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru fel a ganlyn: "a major issue currently inhibiting the effective use of stop notices [within the planning regime] is that Local Planning Authorities are wary of the potential cost of delaying works which they might later have to compensate the owner for".⁹⁴ Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 31

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 24

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 09

Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru y gallai'r posibilrwydd y byddai'n rhaid talu iawndal atal awdurdodau cynllunio lleol rhag defnyddio hysbysiadau stop dros dro.⁹⁵

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

132. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod hysbysiadau stop dros dro yn ddull arall i'w ddefnyddio i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol, ac mai'r awdurdod lleol, yn ôl ei ddisgresiwn, sydd i benderfynu a ddylid defnyddio'r pŵer hwn ai peidio. Aeth yn ei flaen i ddweud:

“We’ve heard time and again from our local planning authorities that there is a need to enhance their powers and to remove some of the risk from what they do. Now, whether that be through temporary stop notices or carrying out urgent works with the ability to then recoup some of the costs, local planning authorities need those additional tools at their disposal”.⁹⁶

Ein barn ni

133. Credwn y gallai hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas ag adeiladau rhestredig fod yn ddull defnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol fynd i'r afael â gwaith anawdurdodedig yn effeithiol yn ogystal â mynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfio.

134. Nodwn y pryder yn y dystiolaeth y gall y ddarpariaeth ar gyfer talu iawndal olygu bod awdurdodau yn amharod i gyhoeddi'r hysbysiadau hyn. Credwn ei bod yn rhesymol disgwyl i awdurdodau wneud penderfyniadau ystyriol wrth arfer y pŵer newydd hwn. Fodd bynnag, credwn hefyd y dylai awdurdodau fod yn glir ynghylch yr amgylchiadau pan fyddai disgwyl iddynt gymryd camau gweithredu.

Argymhellwn fod yr amgylchiadau pan fyddai disgwyl i awdurdodau lleol gyhoeddi hysbysiadau stop dros dro yn cael eu nodi'n glir yn y canllawiau sy'n ategu'r Bil.

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 34

⁹⁶ Y Cofnod, paragraff 236, 8 Gorffennaf 2015

Ehangu cwmpas gwaith brys ac adennill costau

Cefndir

135. Mae Deddf 1990 yn rhoi pŵer i awdurdodau cynllunio wneud gwaith brys ar adeilad rhestredig er mwyn gwarchod yr adeilad hwnnw. Dim ond ar adeiladau nad ydynt wedi'u meddiannu neu rannau o adeiladau sydd wedi eu meddiannu ond nad ydynt yn cael eu defnyddio y mae Deddf 1990 yn caniatáu gwaith brys. Er bod Deddf 1990 yn darparu ar gyfer adennill costau gwaith brys nid yw'n pennu dull penodol o wneud hynny.

136. Mae adran 30 yn diwygio Deddf 1990 i ehangu cwmpas gwaith brys i adeiladau sydd wedi'u meddiannu. Os yw adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyllo, gall gwaith brys gael ei ganiatáu o hyd, cyn belled nad yw'n ymyrryd yn afresymol â'r defnydd hwnnw.

137. Mae adran 30 hefyd yn darparu ar gyfer adennill costau gwaith brys drwy eu sefydlu fel pridiant tir lleol. Mae hefyd yn rhoi pwerau gwerthu a lesio i awdurdodau, pŵer derbyn lesau a ildir a phenodi derbynnydd yn union fel pe baent yn forgais ar yr eiddo yn y gweithredoedd.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

138. Roedd consensws cyffredinol bod ehangu cwmpas y gwaith brys a'r pŵer i adennill costau yn ychwanegiadau i'w croesawu i bwerau presennol awdurdodau a allai, os cânt eu defnyddio'n effeithiol, helpu i warchod adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, cododd nifer o ymatebwyr amheuan ynghylch a fyddai'r awdurdodau yn dewis arfer y pwerau hyn, yn enwedig heb unrhyw gyllid ychwanegol.

139. Ar fater ehangach, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, y Sefydliad, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad a nifer o awdurdodau lleol y dylid gwneud mwy i fynd i'r afael ag adeiladau sydd mewn perygl yng Nghymru a thynnodd sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o gyfeiriad strategol mewn perthynas â hyn.

140. Eglurodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod gan awdurdodau lleol, ar hyn o bryd, bwerau sylweddol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig gan gynnwys gwaith brys.⁹⁷ Fodd bynnag,

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 06

dywedodd fod yr awdurdodau cynllunio lleol yn amharod i arfer y pwerau hyn oherwydd y goblygiadau ariannol ac adnoddau ac oherwydd y gallai llawer o arian gael ei glymu am genhedlaeth neu ragor.⁹⁸

141. Er ei bod yn croesawu'r pwerau ychwanegol yn y Bil dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel a ganlyn: "In this financial climate, difficult decisions will have to be made regarding the cost of urgent works against the potential recovery of costs and the timeframe for doing so."⁹⁹

142. Yn ôl Cyngor Sir Ynys Môn, roedd y darpariaethau yn 'hwb newydd' i awdurdodau arfer eu pwerau i atal difrod i adeiladau rhestredig. Credai fod y pŵer i awdurdodau adennill costau gwaith brys yn rhoi mwy o hyder iddynt a byddai'n lleihau'r risg ariannol o gymryd camau ataliol.¹⁰⁰

143. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'r pwerau ychwanegol arfaethedig ddim ond yn ddefnyddiol pe byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfeiriad strategol ac ariannol ac yn sicrhau strategaeth genedlaethol ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl.¹⁰¹

144. Er bod y rhan fwyaf o'r rhai a gyflwynodd sylwadau yn cefnogi'r pŵer arfaethedig i adennill costau, roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Grŵp Treftadaeth Cymru a'r Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol, yn credu mai'r pridiannau tir a ddefnyddir ar gyfer y pwrpas yma ddylai fod y pridiant cyntaf ar yr eiddo.¹⁰² Awgrymodd Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, oni bai mai pridiannau tir fyddai'r pridiant cyntaf, y gallai'r pŵer arfaethedig fod o ddim budd bron a bod.¹⁰³ Gwnaeth Cyngor Sir Fynwy bwynt tebyg.¹⁰⁴

145. Yn groes i'r farn uchod, soniodd y Gymdeithas Tai Hanesyddol bod amheuan difrifol am y bwriad i ehangu cwmpas y gwaith brys a'r

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 57, 10 Mehefin 2015

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 06

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 21

¹⁰¹ Ibid

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 41, HE 43

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 37

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 49

pŵer i adennill costau.¹⁰⁵ Dywedodd fod angen ailystyried y darpariaethau hynny'n sylweddol.¹⁰⁶

146. Mynegodd y Gymdeithas Tai Hanesyddol bryder am y goblygiadau ymarferol i deiliaid pe byddai cwmpas y gwaith brys yn cael ei ehangu i adeiladau preswyl ac awgrymodd bod y cyfnod o hysbysiad ysgrifenedig sy'n ofynnol cyn y gall gwaith gael ei wneud (hynny yw, dim llai na saith niwrnod) yn annigonol. Awgrymodd hefyd fod y cyfnod hysbysu yn annigonol yn achos adeiladau sydd wedi'u meddiannu a ddefnyddir at ddibenion masnachol.

147. Cododd y Gymdeithas Tai Hanesyddol amheumon ynghylch pa mor effeithiol oedd y pŵer arfaethedig i adennill costau a chwestiynodd a oedd y gymhariaeth a wnaed rhwng adennill costau a morgais yn briodol. Dywedodd:

“...the crucial difference is that the holder of a mortgage has entered into a contract with the mortgage company and their occupation of the property is conditional upon that contract. There is no contract between the owner of a listed building and their local authority.”¹⁰⁷

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

148. Esboniodd y Dirprwy Weinidog, er bod gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau eisoes i wneud gwaith brys, roeddent yn amharod weithiau i ddefnyddio'r pwerau hynny oherwydd yr ansicrwydd ynghylch eu gallu i adennill costau.¹⁰⁸

149. Wrth ymateb i bryderon gan yr ymatebwyr am oblygiadau'r pwerau arfaethedig ar berchnogion a deiliaid, honnodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r awdurdodau ond yn arfer y pwerau hyn fel cam olaf. Ychwanegodd:

“...there are too many cases of owners deliberately neglecting buildings or, whilst well-meaning, not having the financial capacity to care for the buildings, with the result that deterioration continues. So, it's essential that we give local planning authorities the power to use, and that we're able to

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 31

¹⁰⁶ Ibid

¹⁰⁷ Ibid

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 124, 4 Mehefin 2015

empower them to use, their statutory powers to save buildings important to the community and, indeed, to the nation."¹⁰⁹

150. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog bryder yr Aelodau ynghylch nifer yr adeiladau rhestredig nad oedd yn cael eu defnyddio, gan gynnwys adeiladau eglwysig, a oedd mewn perygl o ddadfeilio. Pwysleisiodd bod angen mwy o hyblygrwydd o fewn y system i helpu i aildefnyddio'r adeiladau hynny, gan nodi Castell y Gelli fel enghraifft o sut yr oedd hyn wedi gweithio'n ymarferol.¹¹⁰ Fodd bynnag, pwysleisiodd hefyd bod angen i awdurdodau gael y dulliau angenrheidiol i ymyrryd mewn achosion lle'r oedd y perchnogion wedi methu â chydweithio neu weithredu. Cyfeiriodd at gynllun a oedd yn gweithredu yn Barcelona, lle byddai cosbau ariannol yn cael eu codi ar berchnogion adeiladau gwag.¹¹¹ Yn dilyn hynny eglurodd y Dirprwy Weinidog fod y fenter hon ar gyfer banciau a oedd ag adeiladau gwag ar eu llyfrau a nododd nad oedd wedi'i thargedu'n benodol tuag at adeiladau hanesyddol.¹¹²

151. Pan holwyd ef a oedd y pwerau gwerthu neu brydlesu yn gymesur ac a oedd iddynt unrhyw oblygiadau o ran y ddeddfwriaeth ar hawliau dynol, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod yna ddulliau diogelu gweithdrefnol ar waith ac y gall perchennog anghytuno â'r costau i'w hadennill drwy wneud sylwadau i Weinidogion Cymru. Hefyd, eglurodd y gallai'r perchennog herio'r costau yn y llys sirol.

152. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y dull o adennill costau y darperir ar ei gyfer yn y Bil yn ddull "...cyffredin y mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i adennill treuliau sy'n deillio o ddefnyddio pwerau statudol i gyflawni gwaith." Dywedodd hefyd fod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol "arfer eu pwerau mewn ffordd resymol sy'n cydymffurfio â hawliau dynol, neu gall wynebu adolygiad barnwrol."¹¹³

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 247, 8 Gorffennaf 2015

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 162, 16 Medi 2015

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 165 ac 172, 16 Medi 2015

¹¹² Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 28 Medi 2015:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s44610/Gohebiaeth%20gan%20y%20Dirprwy%20Weinidog%20Diwylliant,%20Chwaraeon%20a%20Thwristiaeth%20-%2028%20Medi%202015%20Saesneg%20yn%20uni.pdf>

¹¹³ Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 21 Gorffennaf 2015

Ein barn ni

153. Credwn fod ehangu cwmpas y gwaith brys, a'r pŵer i awdurdodau adennill costau, yn ychwanegiadau synhwyrol i'r darpariaethau deddfwriaethol presennol sydd â'r nod o ddiogelu adeiladau rhestredig. Dylai'r rhain, mewn theori, ei gwneud yn haws i awdurdodau ymyrryd er mwyn gwarchod adeilad. Er y gallai'r pŵer i adennill costau roi mwy o sicrwydd ariannol i awdurdodau lleol sy'n dewis gwneud gwaith brys, credwn fod y gost ariannol gychwynol yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol.

154. Nodwn fod y pŵer i adennill costau drwy werthu neu brydlesu eisoes ar gael i'r awdurdodau fel ffordd o adennill treuliau penodol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Dirprwy Weinidog wedi rhoi sicrwydd y bydd y pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio fel cam olaf. O ystyried hyn, rydym yn fodlon bod y pwerau'n angenrheidiol ac yn gymesur.

155. Fel y soniwyd eisoes, credwn ei bod yn rhesymol disgwyl i awdurdodau wneud penderfyniadau ystyriol wrth arfer y pwerau newydd hyn. Fodd bynnag, credwn y byddai'n ddefnyddiol pe byddai canllawiau ar gael i'r awdurdodau i'w cynorthwyo i ddefnyddio eu pwerau estynedig mewn perthynas â gwaith brys.

Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn rhoi canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol yngylch defnyddio eu pwerau ychwanegol mewn perthynas â gwaith brys (adran 30 o'r Bil).

Hefyd, argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn egluro a yw'n fwriad ganddo bod y costau gwaith brys ar adeiladau rhestredig yn cael eu hadennill drwy bridianau tir, a bod y rheini yn bridiant cyntaf ar yr eiddo (hynny yw, yn drech na buddianau eraill sydd eisoes yn bodoli yn yr eiddo, fel morgeisi). Disgwylwn i'r Dirprwy Weinidog wneud hynny yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil.

Os yw'n fwriad gan y Dirprwy Weinidog i'r pridiannau tir hyn fod yn bridiant cyntaf ar yr eiddo, rydym yn pryderu nad yw adran 30 o'r Bil yn gwneud hyn yn glir. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r mater hwn.

O ran y mater ehangach o aildefnyddio adeiladau rhestredig segur, **argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn ystyried y posibilrwydd o**

**godi cosbau ariannol ar berchnogion sy'n gadael i'w hadeiladau
rhestredig ddadfeilio'n fwriadol.**

7. Cofnodion amgylchedd hanesyddol

Cefndir

156. Mae pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol anstatudol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r cofnodion hyn yn cadw gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol ac asedau hanesyddol mewn ardal benodol. O dan y trefniadau presennol, mae'r cofrestrï anstatudol yn eiddo i ymddiriedolaethau elusennol ac yn cael eu rheoli ganddynt. Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru sy'n cynnal y cofrestrï a hwy hefyd sy'n sicrhau y caiff y cyhoedd weld y cofnodion.

157. Mae adrannau 33 i 36 o'r Bil yn darparu ar gyfer creu, cynnal, cyhoeddi a sicrhau mynediad i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol statudol. Maent hefyd yn galluogi'r awdurdod cynllunio lleol i ddirprwyo'r gwaith o greu a chynnal ei gofnod amgylchedd hanesyddol yn ogystal â rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch y cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

Cofnodion amgylchedd hanesyddol statudol

158. Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor ar gyfer gosod cofnodion amgylchedd hanesyddol ar sail statudol. Fodd bynnag, holodd nifer o'r ymatebwyr a oedd yn briodol i'r ddyletswydd i greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol gael ei rhoi ar awdurdodau cynllunio lleol. Ceisiodd yr ymatebwyr eglurhad am, neu fe godwyd pryder am oblygiadau ymarferol ac ariannol y ddyletswydd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, yn enwedig pe na byddai'r trefniadau presennol yn parhau. Hefyd, codwyd pryder am yr effaith ar y cofnodion pe byddai unrhyw drefniadau amgen ar gyfer cyflenwi.

159. Dywedodd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru bod rhoi statws statudol i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn hanfodol er mwyn cynllunio'n effeithiol ac roedd hi, ynghyd â llawer o sefydliadau eraill, yn dibynnu ar gael data cadarn am gofnodion amgylchedd hanesyddol.¹¹⁴ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.¹¹⁵

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 09

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 46

160. Roedd rhai ymatebwyr, a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r cofnodion anstatudol presennol yn rheolaidd, wedi codi pryder am eu safon a'u cyflawnrwydd ac awgrymwyd y byddai angen eu gwella cyn iddynt gael statws statudol.¹¹⁶

161. Wrth ymateb i'r pryder uchod, dywedodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys fod y cofnodion presennol yn ateb y diben ac yn cyrraedd y safon briodol.¹¹⁷ Cydnabu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, er bod amrywiadau yn y cofnodion rhwng y pedair Ymddiriedolaeth, eu bod yn llawer mwy cyson yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU.¹¹⁸ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.¹¹⁹

Y priodoldeb o roi'r ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol

162. Roedd Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Powys yn credu bod y ddyletswydd arfaethedig ar awdurdodau cynllunio lleol yn gorbwysleisio pa mor berthnasol oedd y cofnodion amgylchedd hanesyddol i'w gwaith beunyddiol.¹²⁰ Esboniodd Cyngor Sir Ynys Môn fod gan y cofnodion amgylchedd hanesyddol ran yn llai na 12 y cant o'r ceisiadau cynllunio o fewn ei ardal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a bod hynny'n awgrymu bod y bwriad i'r awdurdodau cynllunio lleol gymryd cyfrifoldeb yn ddiffygiol.¹²¹

163. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gyngor Gwynedd, a gododd hefyd bryder na fyddai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cael eu blaenoriaethu o ran cynllunio am fod adnoddau'n brin. Credai mai dewis arall mwy priodol fyddai bod y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cael eu cadw yn yr archifdai lleol neu'n parhau gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru ond bod y ddyletswydd, ynghyd â'r cyfrifoldeb am eu goruchwylio, ar Weinidogion Cymru drwy'r Comisiwn Brenhinol.¹²²

164. Nid oedd y Sefydliad wedi ei argyhoeddi bod symud y cyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol i'r awdurdodau cynllunio lleol yn briodol, a dywedodd bod anawsterau cynhenid gyda'r dull hwn o weithredu. Roedd yn pwysleisio bod angen sicrhau bod ymgeiswyr ac awdurdodau

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 16, HE 26, HE 47

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 253, 10 Mehefin 2015

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 258, 10 Mehefin 2015

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 259, 10 Mehefin 2015

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 21, HE 33, HE 40

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 21

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 33

cynllunio lleol yn defnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol fel mater o drefn ac y dylai hyn gael ei hyrwyddo ar lefel genedlaethol.¹²³

165. Mynegodd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys a'r Comisiwn Brenhinol bryder am yr effaith niweidiol bosibl ar y cofnodion amgylchedd hanesyddol pe byddai'r awdurdodau cynllunio lleol yn dewis creu a chynnal eu cofnodion amgylchedd hanesyddol eu hunain neu'n rhoi'r gwaith allan ar gontract i ddarparwyr heblaw Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru.¹²⁴ Yn ôl y Comisiwn Brenhinol, roedd risg y byddai hyn yn esgor ar nifer fawr o ddulliau gwahanol, a allai ddarnio'r cofnodion ac arwain at ddiffyg cysondeb cenedlaethol a fyddai'n drysu defnyddwyr ac yn eu rhwystro rhag gwneud defnydd ehangach o'r cofnodion.¹²⁵

166. Er bod Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru yn cefnogi egwyddor y cofnodion amgylchedd hanesyddol statudol, roedd ganddo bryderon difrifol am y goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol ac eraill. Aeth ymlaen i ddweud: "additional costs to LPAs may potentially place other elements of the planning service at risk".¹²⁶ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.¹²⁷

167. Ar y cyfan, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn fodlon â'r ddyletswydd statudol a'r ddarpariaeth i awdurdodau ofyn i gorff arall gyflawni eu swyddogaethau o ran y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Credai bod hyn yn ffordd o wneud y trefniadau presennol yn rhai 'ffurfiol'.¹²⁸ Er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod bod y Bil yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gynnal eu cofnodion amgylchedd hanesyddol eu hunain, credai fod hyn yn annhebygol, yn enwedig o ystyried y goblygiadau ar gapasiti ac adnoddau.¹²⁹

168. Er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno, mewn egwyddor, y dylai'r arian ddilyn y cyfrifoldeb statudol, roedd yn fodlon y byddai Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn parhau i gael eu

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 29

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 24, HE 40, HE 10

¹²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 10

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 34

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 25

¹²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 10 Mehefin 2015

¹²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 126 Mehefin 2015

hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, o ystyried cyn lleied o arian oedd yn rhan o hyn.¹³⁰

169. Yn ôl Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, roedd y trefniadau ar gyfer cynnal y cofnodion presennol yn gweithio'n dda.¹³¹ Dywedodd fod y ddarpariaeth sy'n galluogi'r awdurdodau cynllunio lleol i arfer eu swyddogaethau o ran y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn allweddol i sicrhau bod llwyddiant y trefniadau presennol yn parhau, ac roedd o blaid hynny.¹³² Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a'r Comisiwn Brenhinol, ac roedd y Comisiwn yn awyddus i weld y canllawiau statudol yn cyfeirio at barhau â'r trefniadau presennol, sef y dull a ffefrir ganddo.¹³³

170. Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn awyddus i weld manylion ychwanegol ynghylch y trefniadau i lywodraethu a chraffu ar Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn cael eu cynnwys naill ai yn y Bil neu yn y canllawiau statudol.¹³⁴ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a oedd yn awyddus i weld eglurhad am amryw faterion yn y canllawiau, gan gynnwys rhan yr awdurdodau lleol wrth fonitro a gorfodi cynnwys a safonau data.¹³⁵

Materion mewn perthynas â'r Gymraeg

171. Nododd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fod y data a gedwir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn uniaith Saesneg yn bennaf, a galwyd am arweiniad pellach ar oblygiadau darpariaeth ddwyieithog yn unol â chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol tuag at y cofnodion amgylchedd hanesyddol.¹³⁶

172. Galwodd Comisiynydd y Gymraeg am i'r canllawiau statudol ar y cofnodion amgylchedd hanesyddol "nodi yn benodol bod angen i gynnwys y cofnodion fod yn ddwyieithog ac o'r un ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'r gofynion a fydd ar awdurdodau lleol yn unol â safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011." Dywedodd hefyd y dylai'r canllawiau "gynnwys yr angen i roi sylw dyladwy i gywirdeb orgraffyddol a tharddiad enwau'r nodweddion amgylcheddol a

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 10 Mehefin 2015

¹³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 278, 18 Mehefin 2015

¹³² Cofnod y Trafodion, paragraff 281, 18 Mehefin 2015

¹³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 164, 18 Mehefin 2015

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 24

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 46

¹³⁶ Ibid

gofnodir yn y cofnodion hyn gan gofnodi'r enw Cymraeg neu Saesneg yn unig neu'r enw yn y ddwy iaith os yw'n bodoli."¹³⁷

173. Pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod y cofnodion yn gywir "nid yn unig (...) o safbwynt hanesyddol, ond hefyd o safbwynt ieithyddol" ac awgrymodd "y dylai'r canllawiau gynnwys yr angen i ymgynghori ag arbenigwyr ieithyddol ac enwau lleoedd wrth lunio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol."¹³⁸

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

174. Yn ôl y Dirprwy Weinidog:

"[HERs] provide planning authorities and other decision makers with essential information. They raise awareness of the historic environment at a local level and they provide a resource for public participation for research and for educational activities."¹³⁹

175. Eglurodd hefyd: "the importance of the HERs is not always adequately recognised by those involved in planning applications and decisions". Roedd yn credu y byddai gosod y cofnodion ar sail statudol yn gwella'u statws ac yn rhoi dyfodol sicrach iddynt.¹⁴⁰

176. Pan holwyd ef pam ei fod yn credu ei bod yn briodol i'r ddyletswydd i greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol gael eu rhoi ar Awdurdodau Cynllunio Lleol, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"It's very telling, isn't it, that some of the responses to the committee argue (...) that HERs are not particularly relevant to the work of local planning authorities. Of course, this is precisely the attitude that we are trying to counter by placing the duty on local planning authorities (...) Were the duty to be put on Welsh Ministers, that would not enable us to do what we wish to do with HERs, which is to ensure that local authorities recognise the value of them".¹⁴¹

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 38

¹³⁸ Ibid

¹³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 4 Mehefin 2015

¹⁴⁰ Ibid

¹⁴¹ Y Cofnod, paragraff 304, 8 Gorffennaf 2015

177. Eglurodd na fyddai modd i'r ddyletswydd statudol gael ei rhoi ar Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru oherwydd eu statws elusennol.¹⁴²

178. Er bod y Dirprwy Weinidog wedi dweud nad oedd unrhyw orfodaeth ar awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu swyddogaethau i Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, rhagwelai y byddai'r awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio sgiliau'r ymddiriedolaethau. Yn ddiweddarach dywedodd fel a ganlyn: "in most cases, local planning authorities simply do not have the expertise to be able to compile and to properly maintain HERs as required".¹⁴³

179. Esboniodd y Dirprwy Weinidog fod Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i'w galluogi i reoli'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ac y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i wneud yn siŵr fod y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn bodloni'r meincnodau sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r darpariaethau yn y Bil". Er y byddai Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn parhau i gael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog y bydd unrhyw awdurdod cynllunio lleol sy'n dewis creu a chynnal ei gofnodion amgylchedd hanesyddol ei hun yn cael cyfran o'r arian.¹⁴⁴

180. Pan holwyd a fyddai'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol ar gael yn ddwyieithog, dywedodd y Dirprwy Weinidog y derbynnir yn gyffredinol bod y cofnodion archifol hanesyddol [sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol] wedi'u heithrio o'r cynlluniau iaith Gymraeg presennol. Roedd yn gweithio gyda swyddog cydymffurfiaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, i ystyried goblygiadau'r safonau iaith Gymraeg newydd ar y cofnodion amgylchedd hanesyddol.¹⁴⁵

181. Mewn ymateb i'r pryderon am ansawdd a chyflawnder y cofnodion amgylchedd hanesyddol presennol, eglurodd y Dirprwy Weinidog fod y Comisiwn Brenhinol wedi cwblhau archwiliad o'r cofnodion yn ddiweddar. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan gynllun gwella pum mlynedd, gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd. Eglurodd hefyd mai'r Comisiwn Brenhinol fydd yn gyfrifol am fonitro

¹⁴² Y Cofnod, paragraff 304, 8 Gorffennaf 2015

¹⁴³ Y Cofnod, paragraff 306, 8 Gorffennaf 2015

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 169, 4 Mehefin 2015

¹⁴⁵ Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 21 Gorffennaf 2015

safonau a lefelau gwasanaeth y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Yn olaf, eglurodd y byddai arian ar gael i Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru gynyddu'r capasiti o swyddog rhan-amser i swyddog llawn amser er mwyn cwrdd â'r safonau data a gwasanaeth a roddir ar y cofnodion statudol.¹⁴⁶

182. Wrth roi sylwadau cyffredinol ar asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn 'allweddol' fod y rhestrau hyn yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cymunedau y mae'r rhestrau yn cyfeirio atynt.¹⁴⁷ Eglurodd fod amrywiaeth rhwng y rhestrau presennol, a bod rhyw saith neu wyth ohonynt. Eglurodd hefyd fod y canllawiau drafft, *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig Lleol*, wedi cael eu datblygu i helpu i fynd i'r afael â'r amrywiaeth yn ansawdd y rhestrau lleol presennol.¹⁴⁸

183. Dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oedd darpariaeth ar gyfer rhestrau lleol statudol wedi'i chynnwys yn y Bil oherwydd y byddai'r gost i awdurdodau lleol, a amcangyfrifwyd rhwng £3 miliwn a £3.5 miliwn yn 'afresymol'.¹⁴⁹

Ein barn ni

184. Croesawn y bwriad i ddarparu cofnodion amgylchedd hanesyddol statudol. Ar y cyfan, rydym wedi clywed bod y cofnodion presennol yn ased gwerthfawr sy'n helpu i reoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy.

185. Rydym yn cydnabod barn rhai ymatebwyr nad yw'n rhesymol nac yn briodol i'r ddyletswydd statudol i greu a chynnal y cofnodion amgylchedd hanesyddol gael ei rhoi i'r awdurdodau cynllunio lleol. Er bod gennym rywfaint o gydymdeimlad â'r farn hon, mae'r Dirprwy Weinidog wedi ei gwneud yn glir mai'r effaith a fwriadwyd wrth roi'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau cynllunio lleol yw eu hannog i ddefnyddio'r cofnodion yn well wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio.

¹⁴⁶ Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 16 Mehefin 2015:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s42722/Gohebiaeth%20gan%20y%20Dirprwy%20Weinidog%20Diwylliant.%20Chwaraeon%20a%20Thwristiaeth%20Atodiad%201%20-%20Cofnodion%20amgylch.pdf>

¹⁴⁷ Y Cofnod, paragraff 64, 8 Gorffennaf 2015

¹⁴⁸ Y Cofnod, paragraffau 66-68, 8 Gorffennaf 2015

¹⁴⁹ Y Cofnod, paragraff 68, 8 Gorffennaf 2015

186. Rydym wedi clywed tystiolaeth y bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol os bydd yr awdurdodau yn gorfod creu eu cofnodion amgylchedd hanesyddol eu hunain. Yn absenoldeb unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'n amlwg y bydd cost hyn i'r awdurdodau yn afresymol, yn enwedig yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol presennol. Felly, mae gallu awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol o ran y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn gwbl ddibynnol ar barhau â'r trefniadau presennol (lle mae'r cofnodion yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru). Fe fyddai hynny'n bosibl o dan delerau'r Bil. O ystyried hyn, ac os yw Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn awyddus i barhau â'r trefniadau presennol, rydym yn credu bod darpariaethau'r Bil yn cynnig dull ymarferol o fynd ati i wneud y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn statudol. Felly, rydym yn fodlon bod y ddyletswydd arfaethedig i greu a chynnal y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cael ei rhoi ar awdurdodau cynllunio lleol.

187. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod ansicrwydd o hyd, yn enwedig yn yr awdurdodau lleol, o ran sut y bydd y trefniadau ar gyfer arfer y swyddogaethau o ran y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn gweithio'n ymarferol. Disgwylwn i'r mater hwn gael ei drafod yn glir yn y canllawiau statudol ar gyfer y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Er nad ydym wedi trafod y canllawiau drafft yn fanwl fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil, credwn y bydd yn ganolog i'r gwaith o roi'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ar waith yn effeithiol. Tynnwn sylw'r Dirprwy Weinidog at y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch cynnwys y canllawiau ac anogwn ef i ystyried hyn wrth eu cwblhau.

Ar fater y cofnodion amgylchedd hanesyddol dwyieithog, argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn egluro a yw'r gofynion ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r safonau ym Mesur y Gymraeg 2011 yn gymwys i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys mewn achosion lle mae awdurdodau yn dewis arfer eu swyddogaethau o ran y cofnodion amgylchedd hanesyddol.

188. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw'r Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig ('Rhestrau Lleol') a'r angen am ddiogelu a gwella asedau hanesyddol sy'n bwysig i'n cymunedau. Mae rhestrau lleol yn gyfle pwysig i gymunedau gymryd rhan yn y broses o nodi a rheoli'r asedau hyn, ac yn fwy cyffredinol maent yn ffordd i gymunedau ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

189. O ystyried yr uchod, siom oedd clywed bod cyn lleied o awdurdodau wedi dewis mabwysiadu Rhestr Leol. Croesawn y canllawiau *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig*, ond credwn y dylid gwneud mwy i gynyddu nifer yr awdurdodau yng Nghymru sydd â rhestrau lleol.

190. Rydym yn cydnabod y bydd goblygiadau ariannol ac adnoddau ynghlwm wrth ddarparu rhestrau lleol statudol; fodd bynnag, oni chânt statws statudol, mae'n annhebygol y cyrhaeddir y nod hwn.

Argymhellwn fod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chynnal rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a bod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn.

8. Y Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth

Cefndir

191. Mae adrannau 11 a 28 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru. Bydd y cytundebau statudol hyn yn gyfle i berchnogion a phartïon eraill sydd â buddiant mewn nifer o asedau hanesyddol i gytuno ar raglen o waith hirdymor ar gyfer eu hasedau gyda'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru heb orfod gwneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd heneb gofrestrdig ym mhob achos unigol.

192. Byddai'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth arfaethedig rhwng perchennog neu barti sydd â buddiant mewn ased hanesyddol, a naill ai'r awdurdod cynllunio lleol (ar gyfer adeiladau rhestredig) neu Weinidogion Cymru (ar gyfer henebion cofrestredig).

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

193. Roedd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth ar gyfer y cynigion i gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Roedd consensws cyffredinol y byddai perchnogion ystadau mawr sy'n cynnwys nifer o adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig yn elwa o gael un cytundeb a fyddai'n caniatáu iddynt wneud amrywiaeth eang o waith i'w hasedau hanesyddol.

194. Yn ôl Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, gallai cytundebau partneriaeth dreftadaeth dorri ffordd glir drwy lawer o fiwrocratiaeth sydd yn achosi oedi i'r gallu i ddefnyddio tirweddau cymhleth lle mae dynodiadau gwahanol, a gallai annog partneriaethau effeithiol rhwng perchnogion asedau hanesyddol, awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru.¹⁵⁰

195. Er y croesawyd y cynigion ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar y cyfan, roedd llawer o'r ymatebwyr yn ansicr ynghylch pa mor aml y byddai'r cytundebau yn cael eu defnyddio yn ymarferol, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu llywodraeth leol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynrychiolwyr awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Powys, fod sefydlu cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn debygol o fod yn ddwys iawn o ran adnoddau ac yn arwain at gostau uniongyrchol

¹⁵⁰Cofnod y Trafodion, paragraff 271, 18 Mehefin 2015

sylweddol i'r awdurdodau.¹⁵¹ Mynegwyd pryder am ddiffyg capasiti ac arbenigedd mewn rhai awdurdodau i ymrwymo i gytundebau.

196. Er ei bod yn cydnabod nad oedd rheidrwydd ar awdurdodau cynllunio lleol i drefnu cytundebau partneriaeth dreftadaeth, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gael eglurhad ynghylch ar ba sail y gallai awdurdod wrthod ymrwymo i gytundeb.¹⁵²

197. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn pryderu am y risg y gellid dehongli cynnwys cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn wahanol o ystyried y byddai hirhoedledd y cytundebau yn lleihau'n sylweddol y lefel bresennol o gyswllt rhwng y perchnogion asedau hanesyddol ac awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru.¹⁵³

198. Soniodd Cyngor Sir Ddinbych am yr angen am arweiniad ychwanegol, a thempled ar gyfer y cytundebau,¹⁵⁴ a theimlai Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru y byddai nodiadau ynghylch arfer da yn ddefnyddiol ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r gwaith o weithredu'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth.¹⁵⁵

199. Roedd yr ymatebwyr o fudiadau crefyddol, gan gynnwys Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a'r Eglwys yng Nghymru, am gael eglurhad ynghylch a allai enwadau a eithriwyd¹⁵⁶ ymrwymo i'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Dywedodd yr Eglwys yng Nghymru na ddylai'r Bil rwystro enwadau eithriedig rhag ymrwymo i'r cytundebau hyn yn rhinwedd y darpariaethau eithrio.¹⁵⁷

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

200. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn symleiddio'r broses o reoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy.¹⁵⁸

201. Wrth ymateb i'r awgrym yn y dystiolaeth bod y cytundebau yn annhebygol o gael eu defnyddio lawer, dywedodd ei bod yn anodd

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 06, HE 40

¹⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 06

¹⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 25

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 24

¹⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 34

¹⁵⁶ O dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, mae nifer o addoldai wedi eu heithrio o ganiatâd adeilad rhestredig; oherwydd eu pwrpas crefyddol mae ganddynt eu gweithdrefnau rheoli mewnol eu hunain.

¹⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 30

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 4 Mehefin 2015

rhagweld y niferoedd tebygol a'r galw tebygol am gytundebau partneriaeth dreftadaeth.¹⁵⁹ Yn ei farn ef, byddai'r galw am gytundebau partneriaeth dreftadaeth a'r defnydd ohonynt yn cynyddu gydag amser ac wrth i randdeiliaid ddod i ddeall yn well manteision posibl y cytundebau.

202. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gwbl wirfoddol ac nid oedd yn credu ei bod yn briodol cynnwys system adolygu neu apelio.¹⁶⁰

203. Esboniodd y Dirprwy Weinidog y byddai canllawiau ynghylch yr arfer gorau o ran y cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn cael eu cyhoeddi ac y byddai'n rhoi ystyriaeth i'r hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd yn Lloegr yn ddiweddar.¹⁶¹ Yn ei farn ef, roedd y cynlluniau peilot hyn yn dystiolaeth, ar y cyfan, bod arbedion yn cael eu gwneud drwy reoli'r gweithdrefnau caniatáu yn y tymor hir, er bod goblygiadau cost ac adnoddau cychwynnol wrth sefydlu cytundebau.¹⁶²

204. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y gallai adeiladau eglwysig fod yn destun cytundebau partneriaeth dreftadaeth.¹⁶³ Aeth ei swyddog ymlaen i awgrymu na fyddai angen, mewn gwirionedd, i rai enwadau crefyddol drefnu cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau eglwysig os oeddent eisoes wedi'u heithrio o'r broses caniatáu adeiladau.¹⁶⁴

Ein barn ni

205. Rydym yn cydnabod yr arbedion hirdymor o ran costau ac adnoddau a allai ddeillio o gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Fodd bynnag, yn erbyn cefndir yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu llywodraeth leol, mae'n ymddangos yn annhebygol, yn ein barn ni, y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio'r pŵer i ymrwmo i gytundebau heb y gefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ystyried eu statws gwirfoddol.

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 4 Mehefin 2015

¹⁶⁰ Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 21 Gorffennaf 2015

¹⁶¹ Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/78120/hrp_breport_eightpilotprojects.pdf

¹⁶² Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 21 Gorffennaf 2015

¹⁶³ Y Cofnod, paragraff 296, 8 Gorffennaf 2015

¹⁶⁴ Y Cofnod, paragraff 301, 8 Gorffennaf 2015

206. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y cynlluniau peilot cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn Lloegr fel enghreifftiau o arfer da.

Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn codi ymwybyddiaeth ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru o'r manteision o ddefnyddio cytundebau partneriaeth dreftadaeth i'w hannog i ystyried defnyddio'r cytundebau. Dylid gwneud hyn drwy hyrwyddo'r arfer da a ddaeth i'r amlwg yn y cynlluniau peilot cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn Lloegr.

207. Cytunwn â safbwyntiau'r ymatebwyr ynghylch pwysigrwydd canllawiau ar gyfer awdurdodau sy'n dymuno defnyddio'u pwerau i drefnu cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Felly, croesawn fwriad y Dirprwy Weinidog i ddarparu canllawiau ar gyfer awdurdodau law yn llaw â'r darpariaethau yn y Bil. Er y dylai hyn fynd beth o'r ffordd o ran hwyluso cytundebau, **argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol i awdurdodau sy'n dangos parodrwydd i ymrwmo i gytundebau partneriaeth dreftadaeth. Dylai hyn gynnwys cymorth ymarferol wrth ddechrau datblygu'r cytundebau hyn.**

9. Y Panel Cynggori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Cefndir

208. Mae adrannau 37 a 38 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu Panel Cynggori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru, ('y Panel') a gaiff ei sefydlu gan Weinidogion Cymru. Mae adran 37 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyflwyno rhaglen waith dair blynedd i Weinidogion Cymru cyn pob blwyddyn ariannol yn nodi'r meysydd y mae'n bwriadu rhoi cyngor yn eu cylch i Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ôl ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru, bydd y rhaglen waith ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

209. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r darpariaethau i sefydlu panel cynggori ar gyfer y sector amgylchedd hanesyddol. Yn gyffredinol, teimlai'r ymatebwyr y gallai panel o arbenigwyr o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector i gynghori Gweinidogion Cymru fod o fudd sylweddol, os byddai'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Ar y pwynt hwn, dywedodd Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru:

“We would hope that, as well as having historic environment specialists within the panel, it will also have the ability to challenge the sector, and that it could bring in people with wider expertise and knowledge on, for example, sustainability, access, inclusivity, and perhaps also, then, promotion of the historic environment.”¹⁶⁵

210. Fodd bynnag, awgrymodd Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod yr amcangyfrif o £50,000 y flwyddyn ar gyfer y Panel yn uchel o gofio'r hinsawdd ariannol bresennol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y gellid ystyried ffyrdd eraill o ddefnyddio'r arian hwn.¹⁶⁶

Y risg o ddyblygu â chyrff eraill

211. Roedd nifer o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y Panel arfaethedig, gan gynnwys yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, am

¹⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 10 Mehefin 2015

¹⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 09

eglurhad am union rôl y Panel, a galwyd am gylch gorchwyl clir. Soniodd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, am y risg o ddyblygu gwaith y Panel a chyrrff eraill, fel y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol presennol. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth y dylid rhoi ystyriaeth bellach i rolau'r Panel a'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol er mwyn lleihau'r risg hwn.¹⁶⁷

Aelodaeth y Panel ac annibyniaeth

212. Roedd consensws cyffredinol y dylai aelodau'r Panel ddod o gefndiroedd eang ac y dylai adlewyrchu natur amrywiol y sector amgylchedd hanesyddol. Credai rhai ymatebwyr y byddai'r dull hwn yn helpu i osgoi dyblygu gyda'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol.

213. Credai Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru y gallai'r Panel hefyd elwa o fewnbwn o'r tu allan i'r sector amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y tu allan i Gymru a'r DU, er mwyn cael safbwynt strategol ehangach.¹⁶⁸ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gyfoeth Naturiol Cymru.¹⁶⁹

214. Ymhlith yr awgrymiadau penodol am aelodaeth y Panel roedd y canlynol: cymunedau crefyddol, cyrff amgylcheddol, cynrychiolaeth ar gyfer adeiladau traddodiadol heb eu rhestru, perchnogion preifat, arbenigwr mewn enwau lleoedd hanesyddol, a chymdeithasau amwynder.

215. Roedd barn gref y dylai'r Panel barhau i fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn gallu rhoi cyngor effeithiol a diduedd ar faterion sy'n ymwneud â'r sector. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y gallai'r broses recriwtio ar gyfer y Panel fod yn ffordd o gyflawni hyn. Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn, pe byddai aelodau'r Panel y cael eu penodi gan Weinidogion Cymru, y gallai hynny effeithio ar ei annibyniaeth.

Y trefniadau monitro ac adrodd

216. Roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, yn pryderu am, neu'n gofyn am eglurhad am, sut y byddai llwyddiant y Panel yn cael ei fesur. Awgrymodd rhai bod y

¹⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 286, 18 Mehefin 2015

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 02a

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 27

rhaglen waith flynyddol¹⁷⁰ y darperir ar ei chyfer yn y Bil yn annigonol i fesur gwaith ac allbynnau'r Panel.¹⁷¹

217. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn a'r Sefydliad ei bod yn bwysig fod dulliau adrodd y Panel yn dryloyw er mwyn i'r cyhoedd, yn ogystal â Gweinidogion Cymru, ddeall ei waith.¹⁷² Dywedodd Grŵp Treftadaeth Cymru nad oedd y Bil yn rhoi unrhyw ofynion ar y Panel i gyhoeddi ei ganlyniadau, a dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn y dylai hyn gael ei ystyried yn gyfrifoldeb statudol.¹⁷³

218. Cytunodd ymatebwyr eraill fod dull ffurfiol o gyflwyno adroddiadau i'r Panel yn bwysig er mwyn mesur ei allbynnau'n effeithiol.

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

Dywedodd y Dirprwy Weinidog fel a ganlyn: "The panel seeks to complement the work of the historic environment group, which is composed of representative stakeholder groups, as opposed to individual experts offering individual technical expertise."¹⁷⁴

219. Yn ogystal â hyn, rhoddodd wybodaeth ychwanegol i ddangos y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp. Cadarnhaodd, er nad oedd unrhyw broses benodi ffurfiol ar gyfer y Grŵp Treftadaeth Amgylcheddol, y byddai aelodau'r Panel yn cael eu penodi drwy hysbyseb agored a chystadleuaeth gan Lywodraeth Cymru.¹⁷⁵

220. Ar fater annibyniaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai gosod y Panel ar sail statudol yn sicrhau ei sefydlogrwydd a'i hirhoedledd yn ogystal â'i gwneud yn anoddach i'r corff ddod yn wleidyddol, a thrwy hynny sicrhau ei fod yn dal i fod yn annibynnol.¹⁷⁶

¹⁷⁰ Mae adran 37 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyflwyno rhaglen waith dair blynedd i Weinidogion Cymru cyn pob blwyddyn ariannol yn nodi'r meysydd y mae'n bwriadu rhoi cyngor yn eu cylch i Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ôl ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru, bydd y rhaglen waith ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

¹⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 286, 18 Mehefin 2015

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 29, HE 21

¹⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HE 21

¹⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 184, 4 Mehefin 2015

¹⁷⁵ Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (Atodiad 2), 16 Mehefin, 2015, ar gael yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=12573>

¹⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 184, 4 Mehefin 2015

221. Esboniodd y Dirprwy Weinidog y byddai gwaith y Panel yn cael ei fonitro a'i werthuso ar sail ei flaenraglen waith.¹⁷⁷ Er ei fod yn fodlon â'r trefniant hwn, cytunodd i ystyried dull mwy ffurfiol o gyflwyno adroddiadau, yn amodol ar unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor.¹⁷⁸

Ein barn ni

222. Nodwn bryderon yr ymatebwyr am y risg o ddyblygu rhwng rôl y Panel Cyngori arfaethedig a'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol presennol. Fodd bynnag, cawsom ein darbwylo gan dystiolaeth y Dirprwy Weinidog y bydd digon o wahaniaeth rhyngddynt ac y bydd y Panel yn ategu gwaith y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol.

223. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch dull y Panel o lunio adroddiadau. Credwn ei bod yn bwysig bod dull priodol o lunio adroddiadau yn ei le, sydd yn fwy trwyadl na blaenraglen waith y Panel, er mwyn gallu gwerthuso perfformiad yn effeithiol a llunio dadansoddiad o gost a budd. Mae angen clir i ddangos bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni, yn enwedig o ystyried safbwyntiau rhai ymatebwyr am yr amcangyfrif o gostau blynyddol y Panel.

Argymhellwn fod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru lunio adroddiad i Weinidogion Cymru yn flynyddol ar y gwaith a wnaed a'r allbynnau a gyflawnwyd, a bod yr adroddiadau hynny ar gael i'r cyhoedd.

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 188, 4 Mehefin 2015

¹⁷⁸ Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, 21 Gorffennaf 2015